## Rhagair


Mae'r arolygiad yma o waith troseddau ieuenctid yng Nghwm Taf yn un o nifer fechan o arolygiadau llawn ar y cyd yr ydym yn eu gwneud bob blwyddyn gyda chydweithwyr o'r arolygiaethau cyfiawnder troseddol, gofal cymdeithasol, iechyd a dysgu a sgiliau.

Dewiswyd arolygu yng Nghwm Taf yn bennaf am fod yr ardaloedd o fewn y rhanbarth wedi ymddangos yn gyson ymysg y gwasanaethau troseddau ieuenctid a berfformiodd waethaf yng Nghymru ar nifer o ddangosyddion cenedlaethol, ac am fod arolygiaethau eisiau profi pa mor effeithiol yw ei greadigaeth drwy gyfuno dau wasanaeth troseddau ieuenctid blaenorol .

Gweithiodd Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf (YOS) gyda phlant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth, lle'r oedd materion yn ymwneud â diogelu a risg o niwed yn faterion cyffredin. Ymgysylltodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn dda gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr, ac roedd yn darparu gwaith gweithredol boddhaol. Roedd cyfiawnder adferol wedi'i ymsefydlu'n dda ac yn dod â buddiannau amlwg i'r gymuned leol.

Nid oedd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn comisiynu, gwerthuso na defnyddio data yn gyson i ganfod anghenion plant a phobl ifanc oedd wedi troseddu. Roedd hyn yn golygu na allai gynllunio a darparu ei wasanaethau'n ddigon effeithiol. Dylid talu sylw gofalus i wybodaeth sy'n cael ei rhannu gan asiantaethau eraill, yn arbennig gwybodaeth yn ymwneud â phlant coll a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, er mwyn gwella canlyniadau.

Diben yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad yma yw helpu Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf i wella'n barhaus drwy ganolbwyntio ar feysydd allweddol penodol.



**Y Fonesig Glenys Stacey**

*Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi*

*Gorffennaf 2017*

**Beirniadaethau allweddol**

| | |
|---|---|
| **Gostwng aildroseddu** | ★★★ |
| **Diogelu'r cyhoedd** | ★★★ |
| **Diogelu plant a phobl ifanc** | ★★★ |
| **Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chwblhau** | ★★★★ |
| **Llywodraethu a phartneriaethau** | ★★ |

**Ymyriadau i ostwng aildroseddu** ★★★

Cydnabyddiaethau:

Arweiniwyd yr arolygiad yma gan Arolygydd Ei Mawrhydi Caroline Nicklin, gyda chefnogaeth tîm o arolygwyr, yn ogystal â staff o'n timau ymchwil a gweithrediadau. Y Prif Arolygydd Cynorthwyol sy'n gyfrifol am y rhaglen arolygu yma yma yw Helen Mercer. Hoffem ddiolch i bawb a fu'n helpu i gynllunio ac a gymerodd ran yn yr arolygiad; heb eu cymorth a'u cydweithrediad nhw, ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosibl.

## Crynodeb

### Gostwng aildroseddu

*Roedd y gwaith i ostwng aildroseddu'n foddhaol ar y cyfan.* Cafwyd asesiadau clir a thrwyadl o blant a phobl ifanc, i ganfod pa waith y mae angen ei wneud i ostwng aildroseddu. Nid oedd y broses gynllunio ac adolygu gwaith yn adlewyrchu hyn bob amser. Roedd dealltwriaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'i ddefnydd o gyfiawnder adferol yn dda. Roedd angen i reolwyr achos fod yn fwy archwiliadol, er mwyn  sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth berthnasol am yr achos. Roedd angen mapio ymyriadau i ostwng aildroseddu ac roedd angen gwerthuso canlyniadau llwyddiannus.

### Diogelu'r cyhoedd

*Roedd y gwaith cyffredinol i ddiogelu'r cyhoedd a dioddefwyr gwirioneddol neu botensial yn foddhaol ar y cyfan.* Roedd yr asesiad o'r risg o niwed i eraillyn dda, ond nid oedd y gwaith cynllunio ac adolygu'n ystyried yr asesiad yn ddigonol bob amser. Nid oedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gwneud defnydd effeithiol eto o'r rhaglen asesu AssetPlus i gefnogi ei waith. Roedd y Trefniadau Amlasiantaethol i Ddiogelu'r Cyhoedd yn gweithio'n dda, ond roedd angen gwella'r plethora o brotocolau a chyfarfodydd amlasiantaeth eraill er mwyn gallu rhannu gwybodaeth gyda mwy o ffocws. Nid oedd yr oruchwyliaeth gan reolwyr yn effeithiol bob amser. Gallai plant a phobl ifanc ddisgrifio'r gwaith a wnaed gyda nhw i ostwng y risg y gallent niweidio pobl eraill.

### Diogelu plant a phobl ifanc

*Roedd y gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc a'u gwneud yn llai agored i niwed yn foddhaol ar y cyfan.* Roedd y rheolwyr achos yn gwneud rhywfaint o waith diogelu da. Fel arfer roedd yr asesiadau'n cynnwys dadansoddiad trefnus o'r risg o niwed i'r plentyn neu'r person ifanc, ond nid oedd y cynllunio a'r adolygu'n ddigon da'n gyson ac nid oedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gwneud defnydd effeithiol o AssetPlus eto i gefnogi ei waith rheoli achosion. Nid oedd y broses o rannu gwybodaeth ar unwaith rhwng asiantaethau eraill a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid am blant a phobl ifanc coll yn cyrraedd y rheolwyr achos cywir bob tro.

### Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chwblhau

*Roedd y gwaith i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chwblhau yn dda ar y cyfan.* Gwnaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ymdrechion cyson dda i ddeall ac ymateb i anghenion unigol plant a phobl ifanc. Adeiladodd y staff berthnasau positif i sicrhau bod ymgysylltiad gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn dda bob amser. Roedd hyn yn golygu bod y gwaith cydymffurfio'n effeithiol; gan sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chwblhau.

### Llywodraethu a phartneriaethau

*Roedd y gwaith oedd yn ymwneud â llywodraethu'n aneffeithiol ar y cyfan.* Roedd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn darparu arena dda ar gyfer rhannu gwybodaeth a chefnogi gwaith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i gyflawni ei flaenoriaethau. Fodd bynnag, ni allai gyfeirio'r cynllunio strategol yn ddigonol, oherwydd absenoldeb data ehangach a mwy soffistigedig. Nid oedd strategaeth gyffredin ar waith i ganfod ystod a chynnwys y ddarpariaeth ac i ddeall yn llawn anghenion llwyth achosion y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd rhywfaint o waith partneriaeth da, ond roedd darpariaeth y gwasanaethau gan y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn wael. Nid oedd digon o fynediad at lety addas a chynaliadwy i blant a phobl ifanc.

## Ymyriadau i ostwng aildroseddu

*Roedd y gwaith ar ymyriadau i ostwng ailsdroseddu'n foddhaol ar y cyfan.* Ni allai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ei sicrhau ei hun fod ystod foddhaol o ymyriadau ar gael. Nid oedd yr ymyriadau wedi'u mapio a'u gwerthuso ac, felly, ni ellid arddangos eu heffaith. Roedd yr asesiadau'n dda, ond nid oeddent bob amser yn cael eu darparu yn unol â'r angen a aseswyd. Roedd y gwaith cyfiawnder adferol a'r gwaith i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn dda.

## Argymhellion

Dylai'r gwaith gwella ar ôl arolygiad ganolbwyntio'n arbennig ar gyflawni'r canlyniadau dilynol o fewn 12 mis yn dilyn cyhoeddiad yr adroddiad yma:

1. dylai'r gwaith cynllunio strategol gael ei hysbysu gan gomisiyniad, a gwerthusiad effeithiol o, ddadansoddiad anghenion i ganfod anghenion y garfan, y staff ac anghenion busnes y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid cyfan (Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid)
2. dylid gwneud gwaith i sicrhau llety addas a chynaliadwy i blant a phobl ifanc (Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid)
3. dylai'r broses reolaidd o rannu gwybodaeth rhwng yr heddlu a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid sicrhau bod rheolwyr achos yn derbyn gwybodaeth amserol am yr holl blant a phobl ifanc sy'n cael eu restio (Cwnstabliaeth De Cymru a rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid)
4. dylai'r gwaith ar y cyd gyda'r gwasanaethau plant a'r rhannu gwybodaeth ar lefel yr achosion fod yn gyson (rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a Chyfarwyddwyr y Gwasanaethau Plant)
5. dylai'r arferion rheoli achosion fod o ansawdd da, wedi'u gyrru gan archwiliad trwyadl gan reolwyr achos a dylai wneud defnydd llawn o'r system asesu a chynllunio AssetPlus (rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid)
6. dylid cael agwedd strwythuredig a chyson, wedi ei seilio ar arferion da, tuag at ddarparu a defnyddio ymyriadau sydd wedi'u bwriadu i ostwng troseddu (rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid).

Nodwch os gwelwch yn dda - drwy'r adroddiad cyfan yma, mae'r holl enwau y cyfeirir atynt yn yr esiamplau o arferion wedi eu newid i ddiogelu preifatrwydd yr unigolyn.

Cynnwys

**Thema 1: Gostwng aildroseddu ........................................................................ X**

**Thema 2: Diogelu'r cyhoedd........................................................................ X**

**Thema 3: Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc ........................................................ X**

**Thema 4: Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chwblhau .................................................. X**

**Thema 5: Llywodraethu a phartneriaethau ................................................................ X**

**Thema 6: Ymyriadau i ostwng aildroseddu ................................................................ X**

**Atodiad 1 Cefndir yr arolygiad .......................................................................... X**

## Thema 1: Gostwng aildroseddu

### Yr hyn y disgwyliwn ei weld

Gan mai pwrpas y system cyfiawnder ieuenctid yw atal troseddu gan blant a phobl ifanc rydym yn disgwyl i bartneriaid ym maes cyfiawnder ieuenctid gynyddu'r tebygolrwydd y bydd y canlyniadau'n llwyddiannus drwy wneud gwaith cynllunio ac asesu o ansawdd da, drwy ddarparu ymyriadau priodol a thrwy ddangos rheolaeth effeithiol ac arweiniad positif.

### Sgôr yr asesiad achosion

O fewn yr asesiad achosion, roedd 67% o'r gwaith i ostwng aildroseddu wedi ei wneud yn ddigon da ar y cyfan.

### Canfyddiadau Allweddol

1. Roedd y gwaith gyda'r llysoedd yn dda. Roedd safon yr adroddiadau cyn dedfrydu'n dda ac yn cyflwyno cynigion cadarn a chredadwy yr oedd gan y dedfrydwyr hyder ynddynt.
2. Roedd yr asesiad ar gyfer y gwaith i ostwng troseddu'n dda. Roedd y staff yn deall cymhlethdod eu hachosion ac roedd ganddynt ffocws clir ar ddeall safbwynt y plentyn neu'r person ifanc.
3. Rhoddwyd blaenoriaeth i'r achosion oedd yn fwyaf tebygol o aildroseddu.
4. Gwnaethpwyd digon o waith yn ystod cam carcharol y dedfrydau i ostwng troseddu.
5. Roedd angen mapio a gwerthuso canlyniadau llwyddiannus y ddewislen o ymyriadau a argymhellwyd sydd ar gael i reolwyr achos ar gyfer gostwng troseddu.
6. Roedd y defnydd a'r ddealltwriaeth o gyfiawnder adferol yn dda, a chafwyd esiamplau o ganlyniadau positif.
7. Gwnaeth yr heddlu gyfraniad sicr at waith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, yn arbennig mewn achosion sydd angen y mewnbwn mwyaf dwys, ond roedd angen i'r gwaith o rannu gwybodaeth gael ei gyfeirio a'i ddilyn yn fwy cywir.
8. Datblygwyd perthynas effeithiol gyda phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr, ac roedd hyn yn bwysig er mwyn gwneud gwaith effeithiol i ostwng troseddu.

### Esboniad o'r canfyddiadau

1. Rydym yn ei hystyried hi'n hanfodol, er mwyn cynllunio ar gyfer canlyniadau llwyddiannus, bod rheolwyr achos yn deall o gychwyn y ddedfryd, pam fo'r plentyn neu'r person ifanc yn troseddu a beth allai helpu i ostwng hynny. Ymhob un heblaw wyth o'r achosion a arolygwyd roedd hyn wedi ei gyflawni'n ddigon da, gydag esboniad clir o'r rhesymau pam fo'r plant a'r bobl ifanc wedi troseddu.
2. Gweithiodd y rheolwyr achos yn galed i ddeall sefyllfaoedd o safbwynt y plentyn neu'r person ifanc. Ni wnaethpwyd ymdrech ddigonol bob tro, fodd bynnag, i gasglu gwybodaeth gan bartneriaid, megis gwasanaethau gofal cymdeithasol y plant a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol.

**Sylwadau gan rieni/gofalwyr**
Disgrifiodd rhieni Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf fel un sy'n darparu "*gwasanaeth gwych*" lle mae gan staff "*ddealltwriaeth go iawn o'r bobl ifanc yma*".

3. Wrth arolygu yng Nghymru, rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth o sgrinio gweithredol ac amserol o ddewis ieithyddol Cymraeg/Saesneg y plentyn neu'r person ifanc. Yn yr achosion a arolygwyd gennym, nid oedd unrhyw un o'r plant neu'r bobl ifanc wedi cofnodi'r Gymraeg fel eu hiaith gyntaf, ac nid oeddent wedi mynegi dewis i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Gwelsom fod staff yn ateb galwadau ffôn gyda chyfarchiad yn yr iaith Gymraeg, cyn troi i'r Saesneg. Roedd y staff yn ymwybodol o'r cydweithwyr hynny a allai siarad Cymraeg, y gellid pasio ymholiadau perthnasol iddynt. Roedd digon o siaradwyr Cymraeg ymysg y staff i alluogi'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, os byddai plant neu bobl ifanc yn gofyn am hynny. Gellid gwneud y cynnig yma'n fwy rheolaidd.

4. Roedd rhai dogfennau cychwynnol a ddarparwyd i blant a phobl ifanc ar gael yn y Gymraeg, ond nid oedd unrhyw sôn am yr iaith Gymraeg yn y cynllun gweithredu a'r strategaeth gyfranogaeth newydd. Nid oedd unrhyw aelodau o dîm rheolwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn siarad Cymraeg. Nid oedd y staff yn rhagweithiol mewn hyrwyddo gwerth yr iaith Gymraeg fel sgil cyflogaeth, nac mewn annog plant neu bobl ifanc oedd wedi cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol i ddatblygu eu sgil ymhellach. Nid oedd asesiadau'n rhoi ystyriaeth lawn i sgiliau plant neu bobl ifanc yn yr iaith Gymraeg er mwyn pennu pa blant a phobl ifanc allai elwa o gefnogaeth i gynyddu eu defnydd o'r iaith neu i hybu eu hymwybyddiaeth o'i gwerth.

5. Roedd y rhaglen gynllunio ac asesu newydd, AssetPlus, wedi cael ei chyflwyno'n ddiweddar. Er eu bod wedi derbyn hyfforddiant, nid oedd pob un o reolwyr achos y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi deall yn llawn sut i ddefnyddio'r rhaglen i gefnogi asesiad. Roedd gwaith pellach yn digwydd i sicrhau bod cofnodion yn gynhwysafwr a bod potensial llawn y system wedi ei wireddu.

6. Mae asesiad cychwynnol o ddewis arddulliau dysgu plant a phobl ifanc wedi helpu rheolwyr achos i gefnogi ymgysylltiad. Fel arfer roedd rheolwyr achos yn deall yn glir sut i ddefnyddio'r wybodaeth asesu yma i deilwra gweithgareddau unigol ac i addasu'r gefnogaeth bersonol a gynigir i alluogi plant a phobl ifanc i ymgysylltu mewn gweithgareddau.

7. Adroddiadau cyn dedfrydu oedd y prif ddull o hysbysu'r llys am droseddu a ffactorau eraill i helpu gyda'r dedfrydu. Mae ansawdd yr adroddiadau cyn dedfrydu a pha mor briodol yw'r argymhellion yn arbennig o bwysig wrth ystyried achosion sydd ar drothwy dedfryd o garchar ac roedd hi'n destun pryder i ni weld nad oedd chwech o'r adroddiadau cyn dedfrydu yma a arolygwyd gennym yn ddigon da. Roedd y problemau'n cynnwys adroddiadau rhy hir, dim digon o ddadansoddiad, dim digon o asesiad o'r risg o niweidio pobl eraill a bregusrwydd.

8. Roedd pob un bron o adroddiadau'r gorchmynion atgyfeirio'n dda, ac yn darparu gwybodaeth werthfawr i hysbysu trafodaethau ar banelau troseddwyr ifanc.

9. Roedd y cynllunio ar gyfer y gwaith o ostwng troseddu'n ddigon da mewn ychydig llai na thri chwarter yr achosion, gan ddarparu sail gadarn ar y cyfan ar gyfer gwaith y dyfodol. Roedd y gwaith i ymdrin ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, meddwl ac ymddygiad, ac agweddau tuag at droseddu i'w gweld ymhob cynllun bron lle'r oedd gofyn am hyn. Roedd angen rhoi mwy o sylw i gynllunio i ymdrin â pherthnasau personol a theuluol, iechyd meddwl neu emosiynol, trefniadau byw a dull o fyw. Weithiau roedd angen i rôl yr asiantaethau partner fod yn fwy eglur. Roedd pob un o'r plant a phobl ifanc, heblaw un, a gyfwelwyd gennym yn gwybod bod ganddynt ryw fath o gynllun, naill ai contract gorchymyn atgyfeirio neu gynllun dedfryd unigol.

**Sylwadau gan blentyn neu berson ifanc**
*Cefais fy nghontract yn syth, ar ôl y cyfarfod panel; mae'n sôn am bethau fel addysg, a dicter a phethau felly.*"

"*Oes, mae gen i gynllun, dw i'n ei gadw yn y gegin, rhaid i mi gadw fy apwyntiadau ac aros allan o drwbwl.*"

10. I blant a phobl ifanc yn y ddalfa, dylid darparu eu cynllunio dedfryd mewn ffordd integredig. Roedd hi'n galonogol gweld bod cam carcharol y dedfrydau'n cynnwys cynllunio ar gyfer gwaith i ostwng troseddu ym mron pob achos perthnasol a bod y gwaith a gynlluniwyd yn ystod y cyfnod carcharol i ymdrin ag aildroseddu wedi ei ddarparu. Roedd dau riant/gofalwr gyda phlant yn y ddalfa'n sôn am gefnogaeth dda gan staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, yn cynnwys cymorth i fynd i gyfarfod cynllunio dedfryd, drwy eu casglu a theithio gyda nhw i'r sefydliad diogel. Cadarnhaodd y rhieni/gofalwyr bod cyfarfodydd cynllunio dedfryd wedi rhoi ystyriaeth i anghenion eu plentyn neu berson ifanc a bod y cynllun yn ateb yr anghenion a bennwyd.

**Sylwadau gan rieni / gofalwyr**
"*Mae'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi bod yn wych, maen nhw'n fy nghymryd i'r cyfarfodydd ac yn dweud wrtha i sut mae [fy mab] yn dod ymlaen...... Rwy'n hyderus ei fod yn cael y cymorth y mae ei angen.*"

"*Mae [swyddog Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid] yn gwneud gwaith un-i-un gydag e yn y carchar pan mae e'n ymweld oherwydd dydy'r carchar ddim yn cynnig y cwrs yma. Mae e'n dweud wrtha i sut mae e'n dod ymlaen, ond nid manylion y gwaith, oherwydd mae hynny'n fater i [fy mab] a [swyddog y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid].*"

11. Mae'r arolygwyr yn ffurfio barn am y blaenoriaethau a ddylai fod yn cael sylw ymhob achos, ac a oes digon o waith wedi'i wneud i ymdrin â'r rhain. Wrth edrych ar sefyllfaoedd lle rhoddwyd y flaenoriaeth i swyddi; trefniadau byw; addysg, hyfforddiant a chyflogaeth; meddwl ac ymddygiad; a chamddefnyddio sylweddau, roedd digon o waith wedi'i gwblhau yn y mwyafrif o'r achosion. Wrth edrych ar sefyllfaoedd lle'r oedd y flaenoriaeth ar deulu a pherthnasau personol; dull o fyw, iechyd meddwl ac emosiynol; agweddau tuag at droseddu; a chymhelliant i newid, roedd y gwaith yn annigonol mewn rhai achosion.

12. Weithiau roedd rheolwyr achos yn sôn am ddibyniaeth ar chwilio ar y we i ganfod gwaith ymyriad, yn hytrach na chael cyfres gydlynol o opsiynau a argymhellwyd. Ond, roedd system fewnol (Archif Data Ar-lein y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid), a oedd yn ffynhonnell ddefnyddiol o wybodaeth i'r staff. Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn elwa hefyd o gael ei ddewis yn lleoliad ar gyfer y rhaglen DRIVE (rhaglen trais ddomestig gan Merthyr Tudful Mwy Diogel. Roedd hwn yn brosiect ymchwil felly nid oedd ar gael i bawb eto ond dyma oedd yr unig un yng Nghymru). Dylid cymeradwyo'r staff am eu creadigedd yn ceisio pennu gwaith priodol i gyfateb â'r achosion unigol, ond dylai hyn fod wedi'i seilio mewn cyfres graidd o ymyriadau wedi eu seilio ar dystiolaeth. Gwelsom fod rheolwyr achos yn deall egwyddorion eang arferion effeithiol gyda phlant a phobl ifanc, ond nid oedd ganddynt ddealltwriaeth dda bob amser o ba ymyriadau fyddai'n gweithio orau, na sut i werthuso pa mor effeithiol ydynt.

13. Rhoddwyd digon o sylw i atgyfnerthu ffactorau positif mewn gwaith i ostwng troseddu ym mron pob achos. Mae gwaith o'r fath yn bwysig a gwelsom fod sylw'n cael ei roi i sicrhau bod canlyniadau positif yn gynaliadwy ym mron pob achos oedd yn ddigon agos at ddiwedd eu dedfryd i gael eu hasesu.

14. Roedd dealltwriaeth dda o gyfiawnder adferol ym mron pob achos perthnasol, a gwelsom esiamplau cryf o'r gwaith yma, er y gellid rhoi ychydig bach mwy o sylw i sicrhau bod

panelau gorchmynion atgyfeirio'n clywed ac yn deall llais y dioddefwr. Ysgrifennodd blant a phobl ifanc lythyrau ymddiheuro a gwnaethant amrywiaeth eang o weithgareddau atgyweirio defnyddiol, oedd yn ychwanegu gwerth o fewn eu cymunedau lleol.

**Esiampl o arfer nodedig: Darlun o waith atgyweirio effeithiol**

Roedd archfarchnad fawr yng nghanol un o'r trefni'n cael ei ladrata'n aml. Roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid berthynas barhaus gyda'r siop yma, ac roedd y siop yn hyrwyddo cyfarfodydd gyda'r plant a phobl ifanc oedd wedi troseddu yno. Cyfarfu'r rheolwr diogelu gyda'r plant a'r bobl ifanc ac esboniodd effaith y dwyn ar y siop. Esboniodd fod plant a phobl ifanc yn aml yn credu ei bod hi'n fwy derbyniol i ddwyn o siop fawr a gallai esbonio iddynt beth yw effaith y dwyn ar y staff, yr elw a'r costau i'r gymuned.

15. Roedd yr achosion o aildroseddu ers dechrau'r ddedfryd wedi gostwng mewn 75% o'r achosion hynny lle'r oedd digon o dystiolaeth i asesu hynny. Roedd difrifoldeb yr aildroseddu wedi gostwng mewn 69% o achosion perthnasol. Barnodd arolygwyr bod bron i hanner y plant a'r bobl ifanc yn llai tebygol o aildroseddu nag yr oeddent ar gychwyn eu dedfryd.

16. Aethom ati i siarad gydag 11 o blant a phobl ifanc o'r achosion a arolygwyd gennym.

17. Roedd ymgysylltiad da rhwng y rheolwyr achos a'r plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr. Roedd plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi eu perthynas gyda rheolwyr achos a'r diddordeb a ddangoswyd ganddynt. Roedd yr holl rieni/gofalwyr a gyfwelwyd gennym yn teimlo bod y cynlluniau dedfryd yn gynhwysfawr, roeddent yn gwybod beth oedd ynddynt ac roeddent wedi cyfrannu atynt.

**Sylwadau gan blant a phobl ifanc**

"Mae*[gweithiwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid] yn seren go iawn. Roeddwn i'n ei chasáu hi ar y dechrau ac roeddwn i eisiau rhoi ei char ar dân, ac roeddwn i'n bwriadu gwneud hynny, ond erbyn hyn dw i'n meddwl ei bod hi'n grêt, onest, mi faswn i'n cymryd bwled drosti*."

"*Roedd fy ngweithiwr yn grêt efo fi. Dywedodd e 'gwna di beth rwyt ti'n ei wneud, ond mi roddaf i gyngor i ti am y pethau y gallet ti eu gwneud a beth fydd yn digwydd, defnyddia dy ben'. Rhoddodd gyngor i mi, a dweud wrthyf am y canlyniadau*."

"*Roedd e'n fy mharchu i felly roeddwn i'n ei barchu e. Does dim pwynt mewn colli tymer, dim ond aros yno'n hirach wnei di wedyn*."

18. Gwelsom bartneriaethau gweithredol effeithiol, yn arbennig y rheiny sy'n ymdrin â chamddefnyddio sylweddau. Roedd cysylltiadau cryf gyda gwasanaethau ardal a allai ddarparu cefnogaeth barhaus pan fo'r gorchymyn llys yn dod i ben.


**Sylw gan rieni/gofalwyr**

"*Roedd ei famgu eisiau i mi ddweud wrthych mai [rheolwr achos] yw'r peth gorau i ddigwydd i'r teulu yma erioed, mae wedi bod yn wych*."

"*Mae [gweithiwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid] yn chwarae pêl-droed gyda fy mab am ei fod yn cael trafferth canolbwyntio ac yn ei chael hi'n anodd siarad. Pan mae e'n cael trafferth siarad, mae [gweithiwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid] yn mynd tu allan i gicio pêl, mae wedi bod yn wych*."

## Crynodeb o'r Data

Mae'r siart dilynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arolygiad o achosion. [DS: arolygwyd 35 o achosion. Fodd bynnag, efallai nad yw'r atebion i gyd yn cyfateb â 35, oherwydd efallai nad yw rhai o'r cwestiynau wedi bod yn berthnasol i bob achos]



## Thema 2: Diogelu'r cyhoedd

### Yr hyn y disgwyliwn ei weld

Mae gan ddioddefwyr troseddau, a dioddefwyr posibl, yr hawl i ddisgwyl i bopeth rhesymol gael ei wneud i reoli'r risg o niwed a achosir gan blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu. Rydym yn disgwyl gweld asesiad a chynllunio o ansawdd da wrth ddarparu ymyriadau priodol, ac arweiniad positif, rheolaeth effeithiol a gwaith partneriaeth sy'n gostwng y risg o niwed i eraill.

### Sgôr yr asesiad achosion

O fewn yr asesiad achos, gwnaed 76% o'r gwaith i ddiogelu'r cyhoedd yn ddigon da ar y cyfan.

### Canfyddiadau Allweddol

1. Nid oedd yr asesiad o'r risg o niwed i eraill yn ddigonol bob amser; roedd angen i staff fod yn fwy archwiliol.
2. Roedd angen gwella rhywfaint ar y cynllunio ar gyfer y gwaith i reoli neu ostwng y risg o niwed.
3. Roedd pobl yn deall y Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA) ac roeddent yn gweithio'n dda.
4. Nid oedd cyfarfodydd rheoli risgiau eraill yn effeithiol bob tro. Roedd y berthynas gyda'r heddlu a'r rhannu gwybodaeth gan yr heddlu'n dda, ond nid oedd system y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rannu'n gyson gyda rheolwyr achos, na bod camau gweithredu'n cael eu dilyn yn effeithiol.
5. Nid oedd protocolau lleol yn ymwneud â phlant coll wedi'u cyfathrebu na'u deall yn glir.
6. Nid oedd yr oruchwyliaeth gan reolwyr yn effeithiol mewn digon o achosion.
7. Rhoddwyd sylw da i anghenion y dioddefwyr.
8. Roedd plant a phobl ifanc yn deall ac yn disgrifio'r gwaith oedd yn cael ei wneud gyda nhw oedd wedi'i fwriadu i ostwng y risg y byddent yn niweidio pobl eraill.

### Esboniad o'r canfyddiadau

1. I amddiffyn dioddefwyr a'r cyhoedd, mae'n bwysig bod gwaith a gynlluniwyd yn cael ei hysbysu gan waith asesu da, yn cynnwys y sefyllfaoedd y mae'r plentyn neu'r person ifanc yn cymryd rhan ynddynt, sut y gallai hynny ddigwydd a sut y gallai'r ymddygiad hwnnw gychwyn. Ni chafodd hyn ei wneud yn ddigon da ym mron un rhan o dair o'r achosion.
2. Dylai rheolwyr achos greu cynllun clir sydd wedi'i lunio i atal yr amgylchiadau peryglus rhag digwydd. Dylai cynlluniau hefyd esbonio pa gamau gweithredu y mae angen eu cymryd os bydd unrhyw niwed yn digwydd. Nid oedd gan draean o'r achosion gynllun digonol ar waith ar gychwyn y ddedfryd neu'n agos at gychwyn y ddedfryd i reoli'r risg o niwed i bobl eraill. Y rheswm am hyn fel arfer oedd nad oedd y rheolwr achos wedi cydnabod bod angen cynllunio i reoli'r risg o niwed. Nid oedd rheolwyr achos yn deall eto sut i gynhyrchu cynlluniau rheoli risgiau yn AssetPlus gyda'r eglurder, y cywirdeb a'r manylder sydd ei angen. Ymhob un o'r achosion carcharol a archwiliwyd gennym, roedd cynllun rheoli risgiau cynhwysfawr yn ei le.
3. Roedd yr holl blant a phobl ifanc y buom yn siarad â hwy'n ymwybodol bod asesiad wedi'i gwblhau oedd yn asesu eu risg o droseddu a'u risg o niwed i'r cyhoedd. Roedd rhai plant a phobl ifanc yn ymwybodol hefyd eu bod wedi cael eu hasesu fel rhywun allai achosi risg uchel o niwed i'r cyhoedd a bod ganddynt ofynion ychwanegol yn eu cynllun ymyriad.

**Sylwadau gan blant a phobl ifanc**

"*Maent wedi rhoi peth i mewn sy'n dweud na ddylwn i drafferthu unrhyw un o dan 16 oed, rhaid i fy rhieni i neu eu rhieni nhw fod yno. Gaf i ddim bod ar fy mhen fy hun gydag unrhyw un o dan 16 oed, rydw i wedi derbyn dau hysbysiad rhybuddio am herwgydio plant. Rwyf wedi cael tair cariad, roedd un ohonynt yn 13 eod ac roedd dwy ohonynt yn 14. Yn y gorffennol rydw i wedi treulio mwy o amser yn yr orsaf heddlu na'r swyddogion heddlu eu hunain, a dw i'n gwybod, os byddaf yn torri'r gorchymyn, y gallwn fynd i'r carchar*."

"*Mae gen i orchymyn ymddygiad troseddol. Gaf i ddim mynd i Bonti [Pontypridd], oherwydd roeddwn i'n arfer cael llawer o drwbwl yno*."

4. Roedd rheolwyr achos y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn deall MAPPA yn glir ac yn deall sut a phryd i'w defnyddio nhw. Roedd cyfranogaeth MAPPA yn y gwaith asesu a chynllunio cychwynnol yn ateb anghenion yr achosion perthnasol.

5. Wrth weithio ar y cyd gyda gwasanaethau plant lleol, rhoddwyd blaenoriaeth briodol o uchel i asesu a rheoli'r risg o niwed i eraill. Rhoddwyd ystyriaeth weithredol i gyfranogaeth plant a phobl ifanc fel y bo'n briodol. Roedd proses benderfynu a beirniadaeth gadarn yn amlwg mewn perthynas â Diogelu Plant yn ystod trafodaethau gyda gweithwyr cymdeithasol a chynrychiolwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

6. Nid oedd trefniadau amlasiantaeth eraill, protocolau a chyfarfodydd i reoli'r risg o niwed i eraill mor effeithiol. Roedd staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid eu hunain yn pryderu nad oeddent bob amser yn derbyn camau gweithredu clir o gyfarfodydd Panelau Risg Uchel Amlasiantaethol Cwm Taf a Phanel Risg Amlasiantaethol Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf (MARP); ychydig iawn o dystiolaeth a gynhyrchwyd i ddangos bod camau gweithredu'n cael eu dilyn yn gyson ac yn cael eu herio, lle bo'r angen, mewn cyfarfodydd dilynol. Mewn Adolygiad Dysgu Beirniadol diweddar nodwyd hefyd bod y "*Person ifanc yn cael ei reoli o dan Brotocol Ymddygiad Peryglus, er nad yw'n glir o'r cofnodion sut y mae hyn yn cael ei gydlynu na'i raeadru i bawb sy'n cymryd rhan yn yr achos*".

7. Buom, yn arsylwi mewn rhai o'r cyfarfodydd yma ac er bod y rhannu gwybodaeth a'r safbwyntiau oedd yn digwydd yn bositif a gwerthfawr, nid oeddem yn teimlo bod digon o strwythur neu ffocws i sicrhau bod y risg o niwed yr oedd plant a phobl ifanc yn eu hachosi i eraill wedi ei bennu, ei gytuno na'i gofnodi'n glir. Nid oedd y gweithredoedd yn SMART (penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, perthnasol ac amserol) nac wedi eu cyfathrebu'n gyson i'r rheolwr achos perthnasol. Ni roddwyd digon o sylw i roi cynlluniau cadarn ond cymesur yn eu lle i ymdrin â'r risgiau yma ac i wneud cynlluniau wrth gefn.

8. Nid oedd yr adolygiadau o asesiadau a chynlluniau ar gyfer gwaith i reoli risgiau o niwed i eraill wedi eu gwneud na'u cyflawni'n ddigon da bob amser. Y rheswm am hyn weithiau oedd nad oedd y cynnydd a wnaed, nac unrhyw newidiadau, wedi eu cynnwys. Roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid safonau lleol clir a phriodol ar gyfer adolygiadau, nad oedd staff bob amser yn eu dilyn.

9. I ostwng y risg o niwed i eraill, mae'n rhaid i ymyriadau a ddarperir gyda phlant a phobl ifanc fod yn gyson gyda'r angen a aseswyd a gyda'r cynllun. Dim ond mewn nifer fechan iawn o achosion y cyflawnwyd hyn. Y brif broblem oedd bod ymyriadau gofynnol hab eu darparu bob tro i ateb yr anghenion a nodwyd, ac roedd hi'n aneglur pam fo hyn wedi digwydd.

10. Mewn oddeutu traean o'r achosion, ni chafwyd cydbwysedd cywir rhwng gostyngiad mewn troseddu, rheoli'r risg o niwed i eraill ac ymdrin â bregusrwydd. Y rheswm mwyaf cyffredin oedd nad oedd digon o sylw'n cael ei roi i ymyriadau i reoli bregusrwydd neu risg o niwed.

11. Rhoddwyd digon o sylw i reoli'r risg o niwed i ddioddefwyr hysbys neu botensial yn y mwyafrif o achosion perthnasol. Mewn achosion lle nad oedd hyn wedi digwydd, y prif reswm oedd bylchau yn y cynllunio mewn perthynas â dioddefwyr hysbys ac nid oedd rheolwyr achos yn canolbwyntio ar anghenion y dioddefwyr hysbys. Roedd yr holl ddioddefwyr y buom yn siarad â nhw'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, yn derbyn y manylion diweddaraf a, lle bo'n briodol, yn gallu cyfrannu at y broses o ystyried amodau trwyddedau.

**Esiampl o arfer nodedig: Cyswllt positif â'r dioddefwr**
Roedd tystiolaeth o ddefnyddio gwaith adferol da a chynnig gwasanaethau i ddioddefwyr. Mewn un achos, roedd dioddefwr y drosedd yn aelod o'r teulu ac roedd y drosedd wedi niweidio'r berthynas o fewn y teulu'n ddifrifol. Bu rhieni'r dioddefwr yn cymryd rhan mewn cynhadledd adferol. Dywedodd mam y dioddefwr ei bod eisiau cyfranogi, am ei bod eisiau i'r troseddwr wybod maint y niwed sylweddol yr oedd ei droseddu wedi ei achosi i'r teulu, ond roedd hi eisiau iddo wybod hefyd eu bod nhw, fel teulu estynedig, yn dal i fod eisiau ei gefnogi. Cynhaliwyd y gynhadledd ar y penwythnos, fel bod tad y dioddefwr yn gallu mynychu am ei fod yn gweithio'n llawn amser. Roedd teulu'r dioddefwr yn teimlo eu bod wedi paratoi ar gyfer y cyfarfod ac roeddent wedi bod yn derbyn cefnogaeth barhaus ers y gynhadledd.

12. Roedd goruchwyliaeth y rheolwyr achos dros waith risg o niwed wedi bod yn effeithiol mewn 59% o'r achosion perthnasol. Lle'r oedd yr oruchwyliaeth wedi bod yn aneffeithiol, y rheswm oedd na chymerwyd unrhyw gamau gweithredu pan oedd asesiadau ac adolygiadau heb gael eu diweddaru ar ôl i wybodaeth newydd gael ei chanfod.

13. Un o swyddogaethau pwysig swyddog o'r heddlu mewn Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yw rhannu gwybodaeth. Roedd system ar waith i'r swyddogion heddlu ganfod pryd y byddai plant neu bobl ifanc oedd yn hysbys i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi dod i sylw'r heddlu. Gallai swyddogion heddlu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ddefnyddio systemau TG priodol yn nwy swyddfa'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Gallai rhannu gwybodaeth fod yn ffurfiol (drwy ebost) neu ar lafar yn unig,

14. Roedd y Prosiect Ymgysylltiad Ieuenctid yn brosiect oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar draws Cwm Taf, gan ddefnyddio agwedd adferol i ymdrin â materion lleol. Gwnaeth y tîm amlasiantaeth waith allgymorth ar noswaith yn yr wythnos mewn mannau lle mae llawer o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn digwydd. Pennwyd y plant a'r bobl ifanc a allai achosi niwed iddynt eu hunain oherwydd eu gweithgareddau a chawsent eu gwahodd i weithio gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, yn cynnwys cyfranogi'n wirfoddol mewn sesiynau addysgiadol sy'n canolbwyntio ar gamddefnyddio sylweddau ac alcohol, hunanofal, ymwybyddiaeth o ddioddefwyr ac iechyd. Rhannwyd yr wybodaeth a gasglwyd o'r nosweithiau hynny drwy'r ebost, rhwng asiantaethau. Roedd y prosiect yma'n darparu'n effeithiol.


15. Doedd llawer o'r plant a'r bobl ifanc a welsom ddim yn gweld yn benodol bod elfennau o'u hymyriad yn berthnasol i ddiogelu'r cyhoedd. Pan oeddent yn disgrifio'r gwaith a wnaethpwyd, fodd bynnag, roedd hi'n amlwg mai diben y gwaith yn aml iawn oedd ymdrin â'u risg o achosi niwed i eraill. Roedd plant a phobl ifanc eraill yn ymwybodol o gynlluniau sydd ar waith i ddiogelu'r cyhoedd. Roeddent yn eu deall ac yn esbonio sut yr oeddent yn cydymffurfio â'r gwaharddiadau.

**Esiampl o arfer nodedig: Darlun o reolaeth effeithiol o risg**
Dywedodd un person ifanc a welsom fod yr heddlu'n dod i ymweld ag e bob mis a'u bod yn chwilio ei eiddo i sicrhau nad oedd ganddo gyllyll na gynnau. Dywedodd eu bod yn gwneud hyn am fod ganddo Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd ac na ellid ymddiried ynddo i beidio brifo rhywun os oedd arf ganddo. Roeddent wedi ei berswadio bod y gwiriadau yma'n digwydd er budd ei

| |
|---|
| ddiogelwch ef ei hun ac roedd yn ddigon bodlon i'w derbyn. |

## Crynodeb o'r Data

Mae'r siart dilynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arolygiad o achosion. [DS: arolygwyd 35 o achosion. Fodd bynnag, efallai nad yw'r atebion i gyd yn cyfateb â 35, oherwydd efallai nad yw rhai o'r cwestiynau wedi bod yn berthnasol i bob achos]



## Thema 3: Diogelu'r plentyn neu'r person ifanc

### Yr hyn y disgwyliwn ei weld

P'un a yw bregusrwydd plant a phobl ifanc wedi ei achosi gan eu hymddygiad nhw eu hunain neu gan ymddygiad pobl eraill, rydym yn disgwyl gweld eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel a'u bod yn llai agored i niwed o'r herwydd. Dylid gwneud hyn drwy waith asesu a chynllunio o ansawdd da a thrwy ddarparu ymyriadau priodol, rheolaeth ac arweiniad positif, a chyfraniad effeithiol i drefniadau diogelu plant amlasiantaethol.

### Sgôr yr asesiad achosion

O fewn yr asesiad achos, roedd 71% o'r gwaith i ddiogelu plant a phobl ifanc a gostwng eu bregusrwydd wedi ei wneud yn ddigon da ar y cyfan.

### Canfyddiadau Allweddol

1. Byddai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gwneud gwaith da yn aml iawn i ddiogelu plant a phobl ifanc.
2. Datblygodd y staff berthynas bositif gyda'r plant a phobl ifanc, a oedd yn werthfawr o ran helpu i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.
3. Roedd angen gwella'r cynllunio, er bod y cynllunio mewn achosion carcharol yn dda.
4. Nid oedd adolygu digonol yn digwydd o ffactorau bregusrwydd a diogelu.
5. Roedd esiamplau o gydweithio da gyda gofal cymdeithasol plant i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel.
6. Nid oedd y cyfathrebu a'r rhannu gwybodaeth rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac asiantaethau eraill yn ddigon cyson.

### Esboniad o'r canfyddiadau

1. Gwelsom waith da'n cael ei wneud er mwyn diogelu neu ostwng breguswrydd plant a phobl ifanc. Roedd ymdrech ddigonol wedi'i wneud i ddeall, dadansoddi ac esbonio'r anghenion bregusrwydd a diogelu oedd yn berthnasol mewnychydig dros dri chwarteryr achosion. Fel arfer roedd asesiadau'n rhoi sylw digonol i bob maes (heblaw am drefniadau gofal), cyn belled ag y bo'r rhain yn ymwneud â bregusrwydd y plentyn neu'r peron ifanc.

**Sylwadau gan blant a phobl ifanc**
"*Roeddwn i'n arfer mynd ar goll yn aml pan oeddwn mewn cartref plant ac roedden nhw'n arfer cael cyfarfodydd amdanaf i gyda llwythi o bobl yno. Doeddwn i ddim yn mynd i'r cyfarfodydd yma - doeddwn i ddim eisiau eistedd yno'n gwrando ar bobl yn malu awyr amdanaf i, ond dw i'n hoffi'r fan lle ydw i nawr, felly dw i'n aros yma drwy'r amser*."

"*Mae gan yr ysgol drefniant, os ydw i oddi ar y safle am fwy nag 20 munud mae'n nhw'n tybied fy mod i ar goll. Mae hyn yn wirion bost yn fy marn i oherwydd dim ond mynd i nôl melysion a phethau ydw i, dydw i ddim yn gwneud unrhyw beth drwg*."

2. Roedd trefniadau da ar waith i gasglu gwybodaeth gan awdurdodau lleol am bresenoldeb ysgol, ymddygiad a chyrhaeddiad plant a phobl ifanc pan ddaethant i sylw'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i ddechrau. Ond nid oedd rhai o'r canlyniadau asesu'n ddigon diweddar neu fanwl i fod yn ddefnyddiol wrth gynllunio cynnydd plant neu bobl ifanc. Gallai un aelod o staff ddefnyddio systemau gwybodaeth rheolwyr yr awdurdod lleol oedd yn ei galluogi i gasglu canlyniadau asesu. Er bod y staff yn drwyadl wrth geisio cael gwybodaeth

am blant a phobl ifanc gan ysgolion, nid oedd nifer fechan o'r ysgolion sy'n delio gyda'r dysgwyr mwyaf bregus wedi ymateb yn effeithiol i geisiadau am wybodaeth. Mewn rhai achosion, roedd yr wybodaeth yn anghyflawn.

3. Mewn achosion eraill, roedd bylchau yn y broses o rannu gwybodaeth yn gofyn i reolwyr achos fod yn fwy archwiliol yn eu ceisiadau am wybodaeth. Nid oedd gwasanaethau gofal cymdeithaol plant yn ddigon ymwybodol o bwysigrwydd y ffaith fod gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yr wybodaeth berthnasol, ac nid oedd yn rhannu hyn yn rheolaidd. Er enghraifft, lle'r oedd plentyn neu berson ifanc dan risg o gamfanteisio rhywiol, neu'n agored i gamfanteisio rhywiol, nid oedd y rheolwyr achos yn gwybod beth oedd union natur y risg hwnnw bob tro. O ganlyniad, roedd yr asesiadau a'r cynlluniau'n gyfyngedig weithiau.

4. Roedd diffyg eglurder ynghylch defnyddio sgrinio camfanteisio'n rhywiol ar blant, er enghraifft pan fo'r troseddu'n ddangosydd camfanteisio'n rhywiol ar blant. Nid oedd staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi sylweddoli eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r Protocol Cymru Gyfan - Plant Coll, ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n mynd ar goll. Roedd rheolwyr a staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cydnabod nad oedd system awtomatig yn ei lle i sicrhau eu bod yn derbyn manylion yr holl gyfweliadau dychwelyd-adref. Daethpwyd â gwybodaeth dda i'r MARP gan yr heddlu, a gymerodd y cyfrifoldeb am gwblhau cyfweliadau dychwelyd-adref a chasglu gwybodaeth gan blant a phobl ifanc. Derbyniodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid y dylai cylchrediad yr wybodaeth a'r camau gweithredu sy'n cael eu rhannu yn y MARP gael eu cyfeirio at reolwyr achos penodol, i gael eu defnyddio yn rhan o'r asesiadau ac adolygiadau.

5. Roedd pob adroddiad cyn dedfrydu bron yn cynnwys esboniad clir a digonol o'r anghenion diogelu a bregusrwydd oedd yn berthnasol yn yr achos. Gwelsom waith da yn y llys ieuenctid lleol.

**Esiampl o arfer nodedig**

Roedd bachgen 16 oed yn wynebu dedfryd o garchar yn dilyn ei ble euog i gyhuddiad o ladrata mewn adeilad nad yw'n gartref. Roedd y rheolwr achos yn bresennol yn y llys ac wedi darparu adroddiad cyn dedfrydu cynhwysfawr, oedd yn amlinellu'n glir y ffactorau sy'n cyfrannu at droseddu parhaus y person ifanc ond a oedd hefyd yn esbonio'r camau positif tuag at newid yr oedd wedi'u cymryd ers iddo wneud y drosedd. Roedd y rhain yn cynnwys gostwng ei gamddefnydd o sylweddau a sicrhau lle ar gwrs hyfforddi lleol. Soniodd yr adroddiad hefyd am gynnig manwl ar gyfer dedfryd i orchymyn adsefydlu ieuenctid (YRO) gyda Goruchwylio ac Arolygu Dwys (ISS). Roedd y cynnig yn amlinellu'n glir ofynion manwl y gorchymyn yma, sut y byddai'r gweithgareddau cynigiedig yn gostwng yn benodol y tebygolrwydd y byddai'n aildroseddu a pha mor agos y byddai'n cael ei fonitro drwy gydol y gorchymyn. O ganlyniad, cafodd y llys ei ddylanwadu'n bositif i roi "*cyfle*" i'r person ifanc a gosododd y Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid a'r Goruchwylio ac Arolygu Dwys. Roedd gwaith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ddylanwadol i'm helpu i sicrhau bod y person ifanc wedi cael y cyfle i barhau ei newid yn y gymuned.

6. Nid oedd adolygiad digonol o ddiogelu a bregusrwydd. Roedd rhai adolygiadau'n gopi o asesiad blaenorol, er bod gwybodaeth ychwanegol berthnasol wedi dod i'r amlwg yn y cyfamser. Nid oedd yr angen am adolygiad yn dilyn newid sylweddol yn cael ei gydnabod bob amser. Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi cynhyrchu canllawiau defnyddiol am yr amgylchiadau ychwanegol lle byddai angen adolygiadau. Roedd hi'n siomedig canfod nad oedd hyn yn cael ei ddilyn bob amser.

7. Roedd y cynllunio ar gyfer gwaith yn y gymuned i ymdrin ag anghenion diogelu a bregusrwydd yn wael, gyda bron i hanner y cynlluniau'n annigonol. Nid oedd rheolwyr achos yn deall sut i ddefnyddio'r offer AssetPlus newydd yn effeithiol wrth gynllunio. Yn fwy positif, roedd wyth o'r naw achos yn y ddalfa'n cynnwys cynllunio digonol i ymdrin â diogelu a bregusrwydd.

8. Unwaith yr oedd yr ymyriad gofynnol i ymdrin ag anghenion diogelu neu bregusrwydd wedi ei bennu, cafodd ei ddarparu mewn tri chwarter o achosion. Yn gyffredinol, roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi gwneud digon i gadw'r plentyn neu'r person ifanc yn ddiogel mewn dwy ran o dair o'r achosion. Er bod diffygion mewn asesu a chynllunio, nid oedd unrhyw blentyn neu berson ifanc wedi cael eu gadael yn anniogel o ganlyniad uniongyrchol i'r rhain.

9. Roedd yr oruchwyliaeth gan reolwr ar waith bregusrwydd a diogelu'n ddigonol mewn ychydig dros hanner yr achosion perthnasol. Y rheswm pennaf am hyn oedd na ymdriniwyd â'r diffygion mewn asesu a chynllunio y dylai'r rheolwr arolygu fod yn ymwybodol ohonynt. Weithiau roedd asesiadau a chynlluniau wedi eu cydlofnodi heb roi ystyriaeth ddigonol i'w hansawdd. Roedd hyn yn digwydd er gwaethaf y ffaith fod polisi clir yn ei le am oruchwyliaeth rheolwyr.

10. Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn cyrraedd 18 oed, lle'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yw penderfynu a ddylai'r achos gael ei drosglwyddo i reolaeth un o'r gwasanaethau prawf oedolion. Dylid paratoi'r trosglwyddiad yma'n ofalus, gan rannu gwybodaeth yn gadarn rhwng y rheolwr achos a'r gwasanaethau prawf oedolion i sicrhau bod lles y plentyn neu'r person ifanc wedi'i ddiogelu. Gwelwyd bod gweithio ar y cyd fel yma'n effeithiol mewn 80% o achosion perthnasol.

11. Roedd staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn deall pwysigrwydd cael rhywun i blant a phobl ifanc y gallent ymddiried ynddynt a siarad â hwy. Roedd ansawdd y perthnasau hynny'n helpu plant a phobl ifanc i ddeall sut y byddent yn cael eu helpu a'u cadw'n ddiogel Cafwyd adborth positif gan y plant a'r bobl ifanc i gyd am yr ymgysylltiad a'r gefnogaeth a ddarperir gan eu rheolwr achos yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd hi'n amlwg eu bod i gyd yn ymwneud yn dda gyda'u rheolwr achos, hyd yn oed pan oedd rhaid torri eu gorchmynion. Roedd y plant a'r bobl ifanc y buom ni'n siarad â nhw'n ymwybodol o'r gwaith oedd yn cael ei wneud i helpu i ymdrin â'r risg o niwed i eraill.

**Sylw gan blentyn neu berson ifanc**
"*Do fe dorrodd fy ngorchymyn, do, ond dim ond gwneud ei gwaith oedd hi, rwyt ti'n gorfod bwrw mlaen gyda dy fywyd on'd wyt?*"


12. Roedd y staff yn deall effaith negyddol y carchar ac yn cymryd camau i geisio lleihau hyn. Roeddent yn cynllunio'n dda ar gyfer gwaith yn y carchar i ymdrin â diogelu a bregusrwydd ymron pob achos carcharol.

13. Aeth staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal a rhannu gwybodaeth yn briodol. Yn gyffredinol, dywedwyd bod y berthynas rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a'r staff yn y gwasanaethau plant yn dda, ac roedd esiamplau clir lle'r oedd y berthynas waith bositif rhwng unigolion yn y timau yma wedi dod â chanlyniadau buddiol i blant a phobl ifanc. Ymysg yr esiamplau diweddar o hyn roedd ymweliadau ar y cyd i weld Plentyn sy'n Derbyn Gofal pan oedd yn y ddalfa, a chadw lleoliad preswyl mewnol yn agored pan oedd y person ifanc yn y ddalfa.

**Crynodeb o'r Data**

Mae'r siart dilynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arolygiad o achosion. [DS: arolygwyd 35 o achosion. Fodd bynnag, efallai nad yw'r atebion i gyd yn cyfateb â 35, oherwydd efallai nad yw rhai o'r cwestiynau wedi bod yn berthnasol i bob achos]

**Diogelu'r Plentyn neu'r Person Ifanc**



## Thema 4: Sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chwblhau

### Yr hyn y disgwyliwn ei weld

Dylai'r plant a phobl ifanc gwblhau eu dedfrydau fel y mae'r llys yn ei fwriadu. Rydym yn disgwyl y bydd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn uchafu'r tebygolrwydd o ganlyniadau llwyddiannus drwy ymgysylltu'n effeithiol gyda nhw a'u teuluoedd, drwy ymateb i ffactorau amrywiaeth perthnasol yn cynnwys talu sylw i'w hiechyd a'u lles, a chymryd camau priodol os nad ydynt yn cydymffurfio.

### Sgôr yr asesiad achosion

O fewn yr asesiad achos, roedd 85% o'r gwaith i sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chwblhau wedi ei gwneud yn ddigon da ar y cyfan.

### Canfyddiadau Allweddol

1. Rhoddwyd sylw da i ffactorau amrywiaeth ac i ymateb i anghenion unigol plant a phobl ifanc drwy gydol gwaith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.
2. Roedd plant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn cyfranogi yn natblygiad asesiadau ac adroddiadau cyn dedfrydu.
3. Adeiladodd y staff berthynas bositif gyda phlant a phobl ifanc
4. Rhoddwyd sylw i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cwrdd â gofynion eu dedfryd
5. Os nad oedd plant a phobl ifanc yn cydymffurfio gyda'u dedfryd, roedd ymateb y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn briodol.

### Esboniad o'r canfyddiadau

1. Roedd ystyried ac ymateb i anghenion unigol plant a phobl ifanc yn un o gryfderau mawrion Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf. Roedd anghenion ac amgylchiadau unigol plant a phobl ifanc a'u teuluoedd, yn cynnwys ffactorau amrywiaeth a rhwystrau eraill i ymgysylltiad, wedi eu hasesu a'u deall yn dda fel arfer. Dywedodd pob un o'r plant a phobl ifanc a welsom fod unrhyw anghenion amrywiaeth oedd ganddynt wedi cael eu hateb.
2. Roedd plant a phobl ifanc, a'u rhieni/gofalwyr yn ymgysylltu'n dda fel arfer yn natblygiad yr asesiadau. Roedd hyn yn golygu bod asesiadau'n adlewyrchu eu profiadau, am fod y rhain wedi cael eu cyflwyno i'r rheolwr achos.
3. Mae'n arbennig o bwysig bod plant neu bobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr yn deall yr hyn a fydd yn cael ei ddweud amdanynt mewn adroddiadau cyn dedfrydu, oherwydd gall hyn gael effaith ar gynnydd y ddedfryd, unwaith y bydd wedi cychwyn. Yng Nghwm Taf, roedd y plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr wedi cyfranogi'n ddigonol ym mharatoad yr adroddiad cyn dedfrydu ym mron pob achos perthnasol a arolygwyd gennym.
4. Roedd pob adroddiad cyn dedfrydu bron yn rhoi sylw digonol i ffactorau amrywiaeth a rhwystrau posibl i ymgysylltiad. Roedd y sylw a roddwyd i hyn yn ystod y cynllunio'n ddigon da hefyd yn y mwyafrif mawr o achosion. Roedd y plentyn neu'r person ifanc a'u rhieni/gofalwyr neu bobl arwyddocaol eraill wedi cyfranogi'n ddigonol yn y gwaith cynllunio mewn 82% o'r achosion.
5. Roedd y staff yn gryf a medrus mewn adeiladu perthnasau positif gyda phlant a phobl ifanc, ac yn cydnabod bod hyn yn cymryd amser weithiau. Roedd eu gweithredoedd yn rhoi neges glir i blant a phobl ifanc eu bod yn bwysig. Gwelsom amrywiol esiamplau positif

o'r ffordd yr oedd rheolwyr achos yn dangos eu dealltwriaeth o amgylchiadau plant a phobl ifanc.

**Sylwadau gan blant a phobl ifanc**

"*Rydym wedi siarad am y canlyniadau a phethau felly. Dw i'n meddwl mai'r prif berson yr wyf wedi'i effeithio ydy fy Mam. Fy Mam ydy'r rheswm pam fy mod eisiau aros allan o drwbwl*."

"*Rydym yn siarad am ganlyniadau fy ymddygiad. Dw i'n hoff iawn o [rheolwr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid] mae'n esbonio pethau mewn ffordd y gallaf eu deall yn glir*."

6. Rydym wedi nodi fel arfer da ymrwymiad y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i gynnal perchnogaeth ar achosion lle'r oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi mynd i fyw mewn ardal arall, efallai drwy gael eu symud i leoliad Plentyn sy'n Derbyn Gofal arall. Roedd gwaith da gan reolwyr achos yn sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol yn parhau i gyfranogi a chael eu hysbysu ac nad oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi mynd ar goll neu gael eu hanghofio.

7. Rhoddwyd digon o sylw i sicrhau bod y plentyn neu'r person ifanc yn ymgysylltu gyda'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a chafodd gofynion y ddedfryd eu hateb ymhob achos bron. Esboniodd y rhieni/gofalwyr sut yr oedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gyfarfodydd, oedd yn eu helpu i gefnogi gwaith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Dywedodd yr holl blant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr y buom yn siarad â nhw bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn hyblyg yn eu hagwedd tuag at drefnu apwyntiadau; byddent yn gwneud apwyntiadau y tu allan i'r oriau ysgol neu gyflogaeth, a bod yn ymatebol i anghenion plant a phobl ifanc Er enghraifft, roedd un person ifanc yn hoffi cael amser a dyddiad sefydlog ar gyfer ei apwyntiadau a threfnwyd hyn, tra bo un arall yn dweud ei fod wedi ymateb yn well yn y prynhawniau ac, felly, ni roddwyd apwyntiadau iddo yn y bore.

8. Roedd daearyddiaeth a dolenni cludiant cyhoeddus cyfyngedig yng Nghwm Taf yn golygu bod rheolwyr achos yn cwblhau ymweliadau cartref rheolaidd. Roedd ymweld â chartref y teulu'n helpu eu dealltwriaeth o amgylchiadau plant a phobl ifanc a sut y gallai'r rheiny newid dros amser. Mae'n bwysig hefyd, fodd bynnag, bod plant a phobl ifanc yn cymryd y cyfrifoldeb am eu cydymffurfiad eu hunain, lle bo'n briodol. Mae hyn yn arbennig o wir gyda phlant hŷn a phobl ifanc, y gellir defnyddio hyn iddynt fel cyfle i helpu i ddatblygu'r hunan-ddisgyblaeth y byddent ei angen wrth ddechrau gweithio neu ymgysylltu gyda'r gwasanaethau oedolion. Nid oedd rheolwyr achos bob amser yn cael y cydbwysedd cywir. Mynegwyd y farn yma hefyd gan rai rhieni/gofalwyr oedd yn teimlo y dylai eu plant a phobl ifanc gael eu hannog gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i gymryd mwy o gyfrifoldeb.


9. Roedd saith achos yn ein sampl lle nad oedd y plentyn neu'r person ifanc wedi cydymffurfio'n llawn gyda gofynion eu dedfryd. Roedd ymateb y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i hyn yn briodol yn y mwyafrif llethol o'r rhain. Gweithredodd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid broses panel cydymffurfiad, oedd yn canolbwyntio ar ddealltwriaeth ac ar roi camau gweithredu ar waith. Roedd hyn yn golygu y gellid ymdrin â phroblemau i alluogi i'r gwaith o ostwng troseddu a diogelu'r cyhoedd barhau, yn hytrach na dychwelyd achosion i'r llys ar unwaith. Roedd rheolwyr achos yn deall agwedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i gefnogi ymgysylltiad effeithiol ac ymateb i ddiffyg cydymffurfiad.

**Sylw gan blentyn neu berson ifanc**

"*Rwyf wedi cael cwpwl o rybuddion. Digwyddodd hyn ar y dechrau, oherwydd fy agwedd. Rwy'n eu nabod nhw'n well yn awr, felly dydw i ddim yn colli fy nhymer bellach*."

## Crynodeb o Ddata

Mae'r siart dilynol yn crynhoi data o rai o'r cwestiynau allweddol a aseswyd yn ystod yr arolygiad o achosion. [DS: arolygwyd 35 o achosion. Fodd bynnag, efallai nad yw'r atebion i gyd yn cyfateb â 35, oherwydd efallai nad yw rhai o'r cwestiynau wedi bod yn berthnasol i bob achos]



## Thema 5: Llywodraethu a phartneriaethau

### Yr hyn y disgwyliwn ei weld

Mae trefniadau llywodraethu, partneriaeth a rheoli effeithiol yn eu lle. Mae'r rhain yn galluogi'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i gyflawni amcanion cyfiawnder troseddol cenedlaethol a lleol a rhai perthnasol, a darparu a chynnal gwasanaethau o ansawdd da.

### Canfyddiadau Allweddol

1. Roedd ymrwymiad da i waith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid o fewn yr awdurdod lleol ac roedd rhai trefniadau partneriaeth cryf.
2. Nid oedd y rolau a'r cyfrifoldebau o fewn tîm rheolaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ddigon clir, ar draws y ddwy ardal ddarparu.
3. Nid oedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a phartneriaid cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg (ETE) wedi bod yn effeithiol o ran cwrdd â thargedau ar gyfer cyfranogaeth plant a phobl ifanc mewn cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg.
4. Roedd Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn brin o ddata soffistigedig i hysbysu strategaeth a chynllunio. Nid oedd dadansoddiad digonol o anghenion plant a phobl ifanc.
5. Roedd staff a rheolwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gweithio'n dda gyda'i gilydd yn weithrediadol.
6. Roedd ddiffyg sylweddol oddarpariaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

### Esboniad o'r canfyddiadau

**1. Arweinyddiaeth a llywodraethu - mae troseddu wedi gostwng ac mae amcanion cyfiawnder troseddol ac amcanion eraill wedi eu cyflawni**

1.1. Yng Nghwm Taf, roedd aildroseddu a'r defnydd o garchar oll wedi gostwng dros y ddwy flynedd ddiwethaf[1].

1.2. Roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid raddfa uchel o weledd ac roedd yn denu ymrwymiad gan yr awdurdod lleol, yn cynnwys ar lefel Aelod Arweiniol a Phrif Weithredwr. Roedd gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf a Bwrdd Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ddisgwyliadau uchel ar gyfer y gwasanaethau yr oeddent yn eu darparu, ac roeddent yn uchelgeisiol ynglŷn â gwella'r rhain ymhellach. Mynegodd y Bwrdd ddiben cyffredinol clir ar gyfer y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, ynghyd â gwaith partneriaeth da. Roedd gan yr awdurdod lleol ffocws ar atal a thynnu sylw ac roedd hyn wedi'i adlewyrchu yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, oedd wedi datblygu agwedd gref ac arloesol tuag at waith ataliol. Roedd hyn yn adlewyrchu polisi Llywodraeth Cymru y dylai plant a phobl ifanc gael eu hystyried yn blant yn gyntaf ac yn droseddwyr yn ail. Roedd ei lwyddiant wedi arwain yn rhannol at lwyth achos llai, ond yn gyfatebol fwy difrifol, o waith statudol yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

[1] Y data 12 mis diweddaraf a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017 yw: Deuaidd [43.4%] gyda charfan Ebrill 2014-Mawrth 2015, yn erbyn cyfartaledd Cymru a Lloegr o 37.9%: Amlder o 1.40, yn erbyn cyfartaledd Cymru a Lloegr o 1.25. Y defnydd a wnaed o garchar yn y flwyddyn hyd fis Mehefin 2016 oedd 0.34 o achosion ymhob 1000 mewn 10-17 o'r boblogaeth, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru a Lloegr o 0.36 ymhob 1000. Roedd cyfraddau'r rhai oedd yn dod i mewn i'r system am y tro cyntaf yn well na'r cyfartaledd hefyd. Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

1.3. Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi'i ganolbwyntio ar greu gwasanaeth o ddwy ardal ddarparu flaenorol; gan geisio dod â'r ddwy swyddfa at ei gilydd yn un Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, ac roedd llawer o waith wedi ei wneud. Er bod ystod a natur ymyriadau a ddarparwyd gan, neu oedd ar gael i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ymddangos yn weddol briodol, nid oedd agwedd strategol glir tuag at ddatblygiad a darpariaeth ymyriadau i ostwng troseddu. Yn lle hynny, roedd wedi'i arwain i raddau mawr gan yr ymarferydd, mewn ymateb i gyflwyniad anghenion a phroblemau llwyth achosion rheolwyr achos, yn hytrach nag yn rhan o gynllun hysbys.

1.4. Derbyniodd y Bwrdd ystod o wybodaeth am berfformiad, ond nid oedd hyn yn ddigon soffistigedig, ac ni allai gefnogi'r Bwrdd i wneud penderfyniadau a gyrru newid. Nid oedd y Bwrdd yn comisiynu a defnyddio'n rheolaidd ddata ansoddol manwl i gefnogi comisiynu, gwerthuso a darparu gwasanaethau drwy'r ardal gyfan. Nid oedd y Bwrdd wedi gwneud dadansoddiad dwfn rheolaidd o, er enghraifft, effaith hyfforddiant neu addysg ar grwpiau penodol neu anghenion y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid cyfan. Gwelsom ddwy esiampl lle'r oedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi ceisio gwybodaeth ychwanegol, ond nid oedd yr oruchwyliaeth ar y maes hanfodol yma wedi bod yn gyson effeithiol ac nid oedd y Bwrdd wedi dylanwadu ar bartneriaid eraill i ehangu'r ddarpariaeth lle bo angen. Felly, roedd y cynllunio strategol yn wannach.

1.5. Heb yr wybodaeth yma, roedd y Bwrdd a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn pennu blaenoriaethau datblygu, er enghraifft yn y cynllun cyfiawnder ieuenctid diweddaraf; ond nid oeddent yn deall yn ddigonol yr anghenion lleol newidiol a'r risgiau i'r gwasanaeth. Nid oedd unrhyw gyd-ddadansoddiad neu gyd-asesiad ar waith o anghenion strategol. Nid oedd y camau gweithredu o'r cyfarfodydd yn SMART (penodol, mesuradwy, cyraeddadwy, realistig ac amserol) ac ychydig iawn o dystiolaeth a welsom eu bod yn cael eu dilyn yn ddigonol bob tro.

1.6. Nid oedd unrhyw strategaeth i fesur effaith yr ymyriadau ac ni chafwyd unrhyw werthusiad o effeithiolrwydd y gwasanaeth.

1.7. Roedd cyfraddau presenoldeb da mewn cyfarfodydd Bwrdd ac ymrwymiad cryf i'r bartneriaeth gan Heddlu De Cymru. Roedd hefyd dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd (dyma oedd y sefydliad ehangach yng Nghwm Taf oedd yn darparu'r ddarpariaeth iechyd i holl aelodau'r cyhoedd sy'n byw yn yr ardal) a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cydweithredu'n dda, megis y gwasanaeth datblygiad newydd[2]. Cafodd y fenter hon effaith bositif yn nhermau gostwng amseroedd aros i blant a phobl ifanc wrth ddefnyddio'r gwasanaethau iechyd.

1.8. Roedd y Bwrdd Rheoli Iechyd yn fforwm mewnol oedd yn ystyried anghenion iechyd penodol plant a phobl ifanc o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Cyflwynwyd nifer o adroddiadau i Fwrdd Rheoli Iechyd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, ond doedd hi ddim yn glir sut yr oedd y cyfarfodydd hyn yn ychwanegu gwerth. Er enghraifft, roedd gwybodaeth a roddwyd i'r arolygiad yn dangos bod cyfanswm o 326 o blant a phobl ifanc yn y system Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid rhwng01 Ebrill 2016 a 31 Rhagfyr 2016, ond nid oedd digon o'r rhain wedi cael cyfeiriad iechyd mewnol gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac asesiad dilynol. Cydnabuwyd y posibilrwydd bod nifer o'r plant a phobl ifanc wedi bod mewn cysylltiad â phobl broffesiynol eraill mewn iechyd cymunedol, ond nid oedd modd cael tystiolaeth o hynny. Nid oedd y lefel yma o wybodaeth fanwl wedi

[2] Cyhoeddwyd y fenter yn 2015 a chafodd ei hariannu gan Lywodraeth Cymru i ostwng amseroedd aros mewn CAMHS arbenigol.

cael ei rhoi i'r Bwrdd Iechyd, ac nid oedd mwyafrif sylweddol o'r plant a phobl ifanc wedi cael asesiad gofal iechyd.

1.9. Roedd gwybodaeth arall a ddarparwyd i'r Bwrdd Rheoli Iechyd yn werthfawr ac un esiampl o hyn oedd yr 'adroddiad chwarterol ar iechyd' ar gyfer y trydydd chwarter, a oedd yn adlewyrchu'r ffaith fod gan nifer sylweddol o blant anghenion iechyd emosiynol'. Fodd bynnag, nid oedd gan y Bwrdd Rheoli Iechyd strategaeth glir yn ei le i ymdrin â hyn.

1.10. Gwelsom fod rheolwyr achos yn rhoi cefnogaeth dda i blant a phobl ifanc os oeddent yn gweld bod eu sgiliau sylfaenol yn wael. Fodd bynnag, nid oedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid strategaeth glir ar gyfer gwella sgiliau llythrennedd neu rifedd plant a phobl ifanc. Ni roddwyd digon o sylw i asesu sgiliau plant a phobl ifanc yn systematig ar ddechrau eu gorchymyn i hysbysu cynllunio, darparu neu werthuso cefnogaeth.

## 2. Partneriaethau - mae partneriaethau effeithiol yn gwneud gwahaniaeth positif

2.1. Roedd gan y partneriaid feddwl uchel o'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, ac roedd rhai partneriaethau effeithiol ar waith.

2.2. Uwcharolygydd oedd cynrychiolydd yr heddlu ar y Bwrdd, gyda chyfrifoldeb am bartneriaethau,Canolfan Diogelu Amlasiantaeth, Uned Diogelu'r Cyhoedd, Rheolaeth Troseddwyr Integredig (IOM), Cyfiawnder Ieuenctid a Diogelwch y Gymuned. Cafodd Data Cyfiawnder Iechyd a data Troseddau'r Heddlu ei rannu ar lefel y Bwrdd o gyfrifiadur cenedlaethol yr heddlu; ond, roedd cydnabyddiaeth y gallai'r data yma fod yn rhy hanesyddol ac y gallai camliwio data lleol a dealltwriaeth gyfredol. Clywsom am gomisiynu rhywfaint o waith i ganfod anomaleddau yn y data a cheisio mwy o ronynogrwydd i ddarparu darlun mwy diweddar.

2.3. Roedd dau swyddog heddlu wedi eu secondio i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a chawsent eu rheoli gan Dditectif Arolygydd oedd â phortffolio'n ymdrin â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, Rheoli Integredig Troseddwyr, y Prosiect Rheoli Troseddwyr Difrifol a Pheryglus Integredig Cymru, a throseddwyr rhywiol a pheryglus. Roedd y trefniadau rheoli llinell yma'n dangos dealltwriaeth gynhwysfawr o reoli troseddwyr a llywio clir tuag at waith partneriaeth a rheoli risgiau.

2.4. Roedd swyddogion heddlu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi'u lleoli ar y cyd ymhob un o swyddfeydd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a gwelsom berthnasau gwaith effeithiol rhwng y ddau swyddog. Ystyriwyd cydleoli'n arfer da, am fod y gwerth a'r sgiliau y gallai'r swyddogion heddlu eu darparu'n ymestyn ymhellach na dim ond cyflenwi gwybodaeth. Roedd swyddogion y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn frwdfrydig, ymroddedig ac yn ennyn parch mawr gan y rheolwyr achos.

2.5. Cwblhaodd swyddogion heddlu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid nifer o swyddogaethau craidd. Aethent ati i wneud ymweliadau cartref ar y cyd ac ymweliadau â sefydliadau diogel gyda rheolwyr achos, ac aethent hefyd i'r llys ieuenctid. Roedd y swyddogion wedi darparu briffiau amrywiol, sgyrsiau a chyflwyniadau gyda thimau heddlu a'r gymdogaeth, yn ymwneud yn arbennigâ gweithgareddau ataliol megis gwaredu sbwriel ar y stryd. Roedd y swyddogion wedi siarad mewn ysgolion hefyd am secstio, bwlio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roeddem yn cydnabod y gwaith yma i gyd yn arfer da ac yn dystiolaeth o waith rhagweithiol i ostwng y risg o niwed a bregusrwydd.

2.6. Un o swyddogaethau pwysig swyddog heddlu mewn unrhyw Wasanaeth Troseddau Ieuenctid yw rhannu gwybodaeth. Buddsoddodd yr heddlu amser sylweddol yn y gwaith o baratoi cofnodion gwybodaeth i gyfarfodydd y Ganolfan[3]yn arbennig, ac roeddem yn fodlon eu bod yn defnyddio cofnodion carcharol bob bore ac yn rhannu gwybodaeth am restiadau gyda rheolwyr achos. Fodd bynnag, nid oedd hon yn broses gyson ac nid oedd system fflagio amlwg yn ei lle i'r swyddog heddlu ganfod pan oedd plentyn neu berson ifanc yn llwyth achosion y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn dod i sylw'r heddlu.

2.7. Hefyd gwelsom dystiolaeth o wahaniaeth rhwng y lefel o wybodaeth a ddarparwyd gan Heddlu Gwent pan oedd plant a phobl ifanc wedi symud i ardal Gwent ond yn dal i gael eu rheoli gan Wasanaeth Troseddau Ieuenctid Cwm Taf. Roedd yr heddluoedd yma'n defnyddio yr un systemau heddlu, ond roedd y defnydd a wnaed o'r system yn wahanol a gallai hynny ei gwneud hi'n anoddach i gael gafael ar wybodaeth.

2.8. Roedd Heddlu De Cymru wedi buddsoddi adnoddau sylweddol mewn diogelu plant a phobl ifanc, yn cynnwys timau unigolion coll ymhob uned reoli sylfaenol, Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth, a thîm diogelu cyhoeddus rhagweithiol, yr oeddent oll yn cael eu hystyried yn chwaraewyr allweddol yn y gwaith o ddiogelu plant a phobl ifanc a'r cyhoedd

2.9. Roedd gan swyddogion yr heddlu wybodaeth dda o'r arwyddion rhybuddiol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac roeddent wedi bod ar nifer o gyrsiau hyfforddi. Mae'r ddau swyddog yn mynd i gyfarfodydd Panel Risgiau Uchel a chyfarfodydd MARP yn rheolaidd. Er bod cydnabyddiaeth bod y cyfarfodydd risg yma'n werthfawr, roedd y lefel o wybodaeth oedd yn cael ei rannu y tu allan i'r cyfarfodydd yma'n annigonol.

2.10. Yn yr un modd, er bod proses glir yn ei lle i swyddogion yr heddlu o'r tîm unigolion coll gwblhau cyfweliadau dychwelyd adref, nid oedd yr wybodaeth yma'n cael ei rhannu gyda swyddogion achos heblaw pan fo cais amdano. Roedd angen cael sianel gyfathrebu fwy cyson o'r heddlu i'r rheolwyr achos.

2.11. Gwelsom fod perthnasau gweithio positif ac adeiladol rhwng Rheoli Integredig Troseddwyr[4] a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, gyda phwyslais arbennig ar drosglwyddiad achosion o'r gwasanaeth plant i'r oedolion ac agwedd amlasiantaethol tuag at yr unigolion yma. Roedd proses gyfeirio i bobl ifanc 17 ½ oed gan reolwyr achos. Aeth yr unigolion yma i 'Banel Dethol Aml-asiantaeth' a chawsent eu rheoli ar y cyd am gyfnod o chwe mis, ac wedi hynny cawsent eu sgorio gan y Rheoli Integredig Troseddwyr.

2.12. Roedd plant a phobl ifanc oedd yn ateb meini prawf MAPPA, yn ôl eu natur, yn debygol o achosi risg sylweddol o niwed iddynt eu hunain ac eraill. O'r achosion a arolygwyd gennym, mae'n ymddangos bod atgyfeiriadau priodol i mewn i MAPPA ac roedd y rheolwyr achos wedi derbyn yr hyfforddiant pedwar piler. Fodd bynnag, dylai swyddogion yr heddlu sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid fod wedi derbyn hyfforddiant MAPPA.

2.13. Roedd y staff iechyd o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cynnwys dau ymwelydd iechyd. Roedd gan nifer o achosion broblemau iechyd meddwl, ond nid

[3] Mae'r Ganolfan yn brosiect amlasianaeth lleol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sydd wedi eu restio, i'w cyfeirio i ffwrdd oddi wrth ymddygiad gwrthgymdeithasol neu droseddol cyn i'w gweithgareddau eu harwain at dderbyn euogfarn droseddol.

[4] Mae Rheoli Integredig Troseddol yn dod ag ymateb traws-asiantaeth i'r bygythiadau o aildroseddu a throseddau a wynebir gan gymunedau lleol. Mae'r troseddwyr mwyaf parhaus a phroblematig yn cael eu pennu a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner yn cydweithio.

oedd arbenigedd seiciatrig o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i ymdrin â'r rhain.

2.14. Roedd cyfresi ar wahân o nodiadau plant a phobl ifanc yn cael eu cynnal gan yr ymwelwyr iechyd a gan weithwyr camddefnyddio sylweddau wedi eu seilio o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Cwblhaodd yr ymwelwyr iechyd ddwy gyfres o nodiadau, un papur ac un electronig ac, ynghyd â'r nodiadau AssetPlus, roedd hyn yn golygu bod gan bob plentyn neu berson ifanc dair cyfres o nodiadau.

2.15. Roedd diffyg cyfranogaeth wedi'i dogfennu gan nifer o unigolion allweddol yn cynnwys yr ymwelwyr iechyd a gweithwyr camddefnyddio sylweddau. Nid oedd gweithwyr iechyd a chamddefnyddio sylweddau'n rhoi gwybodaeth i mewn i'r asesiad AssetPlus ac, felly, nid oeddent wedi eu cynnwys yn y broses o wneud yr asesiad. Felly roedd staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cael eu gadael, a hynny'n amhriodol yn aml iawn, yn gwneud asesiadau o anghenion gofal iechyd.

2.16. Roedd y fenter lle cafwyd Therapydd Iaith a Lleferydd ar gael o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn un bositif. Fodd bynnag, roedd yr adnodd yma wedi'i gyfyngu i un diwrnod y mis, a dreuliwyd yn gwneud gwaith asesu, gan olygu nad oes amser i ddarparu unrhyw fewnbwn therapiwtig.

**Sylw gan riant / gofalwr**

Dywedodd rhiant un person ifanc bod gan eu plentyn broblemau iechyd meddwl a dywedodd bod y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi eirioli dros y teulu i gael cefnogaeth iechyd meddwl, a oedd yn rhywbeth yr oeddent wedi gofyn amdano am amser maith, ond dim ond yn dilyn ymyriad gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid y cafodd ei roi ar waith.

"*Aethent ati i gysylltu â CAMHS ar ein rhan, roedd y seiciatrydd wedi canslo llawer o apwyntiadau, am ei bod yn sâl neu ar wyliau, dim ond pan ddechreuodd [swyddog y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid] weithio drosom y cawsom ein gweld*."

2.17. Roedd ydiffyg mynediad at CAMHS yn broblem arwyddocaol er gwaethaf ymdrechion cadarn staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd trosglwyddiad plant a phobl ifanc o wasanaethau ieuenctid i'r gwasanaethau oedolion yn llawn problemau a gwelsom gyfranogaeth gyfyngedig gan CAMHS. Soniodd staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid bod y gwasanaeth yn well i blant a phobl ifanc sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid oedd â diagnosis deuol.

2.18. Roedd yr holl blant a phobl ifanc a gyfwelwyd gennym oedd yn 16 oed ac yn iau mewn rhyw fath o ddarpariaeth addysgol, a oedd yn gymysgedd o addysg brif ffrwd, lleoliadau coleg neu 'Addysg Heblaw yn yr Ysgol' (EOTAS), y brif ddarpariaeth amgen. Roedd rhai o'r plant a'r bobl ifanc yma ar amserlenni llai, ac nid oedd rhai'n mynychu fel y dylent, ond roedd darpariaeth ar gael i'r mwyafrif ohonynt.

2.19. Cefnogwyd y ddarpariaeth yma gan y gwaith a wnaeth y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i EOTAS. Aeth swyddog heddlu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i gyfarfodydd tîm EOTAS ac roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi darparu hyfforddiant i staff EOTAS ar egwyddorion cyfiawnder adferol ac ar ddefnyddio cyfiawnder adferol. Yn aml iawn, roedd staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cynnal eu cyfarfodydd gyda phlant a phobl ifanc ar y safle. Roedd y darparydd yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

2.20. Roedd y mwyafrif o blant a phobl ifanc a ymgysylltodd â'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi gwella eu lefelau o ymgysylltiad gydag ETE. Roedd y plant a'r bobl ifanc hynny oedd yn cael eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac oedd o oedran ysgol statudol wedi gwella eu hymgysylltiad gan 57% ac roedd y rheiny sy'n hŷn nag oedran ysgol wedi gwella eu hymgysylltiad gan 38%[5]. Er gwaethaf y gwelliant yma, roedd gormod o blant a phobl ifanc o oedran ysgol statudol oedd ddim yn derbyn eu hawliad i addysg lawn amser. I'r rheiny sy'n defnyddio darpariaeth yr uned atgyfeirio disgyblion, nid oedd digon o fonitro ac adrodd ar y nifer o oriau o addysg yr oeddent yn eu derbyn. Roedd hyn yn cyfyngu ar allu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i ddylanwadu ar y ddarpariaeth addysg.

2.21. Roedd un swyddog prawf wedi'i secondio o'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, oedd â dealltwriaeth dda o'i rôl. Fodd bynnag, roedd hi'n brin o oruchwyliaeth dair-ffordd briodol ac nid oedd mynediad iddi i systemau TG y gwasanaethau oedolion a'r cofnodion. Roedd angen egluro rôl swyddog prawf y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i sicrhau bod y broses drosglwyddo wedi'i chanolbwyntio ar anghenion y plentyn neu'r person ifanc. Ychydig iawn o dystiolaeth a welsom o gysylltiad y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid gydaChwmni Adfsefydliad Cymunedol Cymrulle byddai rhai o blant a phobl ifanc y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cael eu trosglwyddo yn y pen draw.

2.22. Mae diffyg tai priodol ar gael i blant a phobl ifanc bregus yng Nghwm Taf. Canlyniad hyn oedd gwneud lleoliadau amhriodol mewn llety gwely a brecwast, yn arbennig yn ardal Rhondda Cynon Taf. Roedd rheolwyr uwch yn ymwybodol o hyn ac roeddent yn cynllunio strategaeth llety gydag adnoddau ychwanegol hefyd, ond ni allai Bwrdd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ei fodloni ei hun bod ganddo fesurau digon trwyadl yn eu lle i atal lleoli plant a phobl ifanc yn amhriodol. Nid oedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid weithiwr llety.

2.23. Roedd cyfiawnder adferol yn un o gryfderau'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Gwelsom rai ymyriadau cyfiawnder adferol gwych, a oedd yn briodol, wedi'u datblygu'n dda, yn ystyrlon ac wedi'u gwerthfawrogi gan y dioddefwyr. Roedd y gwaith da sy'n cefnogi'r gweithgaredd yma wedi'i hysbysu gan gyfarfod o'r Grŵp Gweithredu Cyfiawnder Adferol Misol, a oedd wedi'i fwriadu i rannu diweddariadau am waith dioddefwyr, atgyfeiriadau gyda ffocws ar y dioddefwr, gwaith yr heddlu, adferiad, gwirfoddolwyr a gweithgareddau ataliol. Derbyniwyd diweddariadau mewn perthynas â chynadleddau cyfiawnder adferol wedi'u cynllunio, ymyriadau Canolfannau, gwaith adferol, gwaredu cardiau cyfiawnder adferol yr heddlu a gweithgareddau gwirfoddoli. Roedd hwn yn faes sylweddol o arbenigedd yr oedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi'i ddatblygu ac y dylid ei ganmol amdano.

**Sylwadau gan blant a phobl ifanc**

"*Rwyf wedi gwneud 36 awr o waith adfer, roedd hyn mewn ysgol leol, ac roedd hyn fy helpu i, dysgais bethau ymarferol, a bu'n fy helpu i beidio colli fy nhymer, oherwydd allwn i ddim colli fy nhymer yno*."

"*Gwnes waith cymunedol am fy mod wedi torri'r gyfraith, roedd y gweithwyr yn grêt, roedden ni'n siarad am bob mathau o bethau a dysgais bethau ymarferol, fel peintio a phethau, roedd yn dda*."

2.24. Roedd y cysylltiadau gydag ysgolion yn dda. Gweithiodd staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn dda gyda staff addysgu a staff bugeiliol yr ysgol i sicrhau

[5] Data a ddarparwyd gan Estyn.

bod y gefnogaeth a gafodd y plant a'r bobl ifanc yn cyflenwi cefnogaeth yr ysgol. Mewn un achos, soniodd yr ysgol am y gwahaniaeth amlwg mewn ymddygiad un person ifanc ar ôl i reolwyr achos y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wneud ymyriad i wella ei lythrennedd emosiynol.

2.25. Rhoddodd y rheolwyr achos gyngor gyrfaol i blant a phobl ifanc a'u helpu i wneud dewisiadau deallus am eu cynnydd. Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi cefnogi 50 o blant a phobl ifanc yn weithredol yn y ddwy flynedd ddiwethaf i weithio tuag at ennill Cynllun Tystysgrif Sgiliau Adeiladu (CSCS) i wella eu cyflogadwyedd.

**Sylwadau gan blant a phobl ifanc**

"*Cefais fy nghyfeirio gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid at y cwrs YFF [Brwydrwyr Tân Ifanc ], roeddwn wrth fy modd gydag e, cefais lwyth o dystysgrifau, roeddwn yn hoffi'r ffordd yr oedden nhw'n siarad gyda chi, cefais fy ngherdyn CSCS, a fyddai wedi costio cannoedd o bunnoedd i mi os byddwn i wedi gorfod talu amdano. Bydd yn fy helpu i gael swydd cyn hir*."

"*Cefais fy ngherdyn CSCS, a oedd yn dda iawn, rwy'n gwneud gwaith glanhau yn awr, ond byddaf yn ei ddefnyddio pan fyddaf yn 18 a bydd yn fy helpu i gael swydd sy'n talu'n well*."

2.26. Roedd y cysylltiadau gyda Gyrfa Cymru'n amrywiol. Nid oedd cynrychiolydd o Gyrfa Cymru ar Fwrdd Rheolwyr Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd un awdurdod lleol wedi creu gwaith partneriaeth agos a da iawn. Trwy hyn, roedd panel amlddisgyblaethol, yn cynnwys cynrychiolydd Gyrfa Cymru, wedi darparu cefnogaeth cynnydd wedi'i theilwra i alluogi partneriaid i ymateb yn gyflym i argyfyngau sy'n ymddangos, a gwella gallu plant a phobl ifanc i lwyddo yn eu cynlluniau gyrfaol dewisedig. Yn Rhondda Cynon Taf, roedd cysylltiadau gyda Gyrfa Cymru'n llai cryf ac nid oedd yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cael gafael ar gyngor, arweiniad a chefnogaeth gynnydd priodol. Yn yr ardal yma, roedd yr awdurdod lleol wedi datblygu gweithwyr trosglwyddo i gefnogi plant a phobl ifanc, ond nid oedd rheolwyr achos y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn ymwybodol o'r gefnogaeth yma na sut i helpu plant a phobl ifanc i gael gafael ar y gefnogaeth.

## 3. Rheoli'r Gweithlu - mae rheolaeth effeithiol ar y gweithlu'n cefnogi darpariaeth gwasanaethau o ansawdd da

3.1. Roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid weithdrefnau, yn cynnwys safonau lleol ar gyfer darparu arferion a phrosesau i gefnogi sicrhad a goruchwyliaeth o ansawdd. Nid oedd yr achosion a arolygwyd gennym yn cwrdd â'r safonau lleol bob tro. Roedd systemau sicrhau ansawdd cyfredol y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi eu gyrru gan brosesau i raddau mawr. Er bod hyn wedi darparu lefel o dawelwch meddwl i uwch reolwyr, nid oedd yn effeithiol o ran gwella arferion mewn cynllunio ac adolygu.

3.2. Bu rheolwyr achos yn siarad yn bositif am eu rheolwyr uwch. Roedd hi'n amlwg bod staff a rheolwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn cydweithio'n dda. Roedd y staff yn ystyried bod rheolwyr yn fedrus o ran asesu eu gwaith; gan eu cefnogi nhw a'u helpu i wella. Dywedodd staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i gyd eu bod wedi derbyn goruchwyliaeth briodol ac effeithiol.

3.3. Cafwyd goruchwyliaeth reolaidd rhwng ymwelwyr iechyd a'u rheolwyr a rhwng gweithwyr camddefnyddio sylweddau a'u rheolwyr. Roedd ymwelwyr iechyd a

gweithwyr camddefnyddio sylweddau'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac wedi eu hyfforddi'n dda ar nifer o ardaloedd allweddol a oedd yn berthnasol i'w rôl.

3.4. Roedd gallu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i weithio'n effeithiol yn dibynnu'n drwm ar systemau TG dibynadwy. Mae gwneud defnydd effeithiol o'r system AssetPlus newydd ar gyfer asesu, cynllunio a chofnodi'n allweddol i sicrhau bod staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gwybod beth yw'r risgiau a'r anghenion mewn achosion unigol. Mae hi hefyd yn hanfodol ar gyfer cyfathrebu effeithiol gydag asiantaethau eraill, er enghraifft i helpu i gadw dioddefwyr neu blant a phobl ifanc yn ddiogel. Roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi trefnu hyfforddiant yn unol â chanllawiau cenedlaethol, a dylai'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid barhau gyda'r hyfforddiant adfywio parhaus sydd mor werthfawr i staff.

3.5. Roedd systemau TG yn rhai bwrdd gwaith i gyd. Roedd hyn yn golygu bod amser yn cael ei wastraffu'n aml iawn rhwng apwyntiadau anghysbell a bod staff yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar wybodaeth pan oeddent allan o'r swyddfa. Efallai mai ateb mwy effeithiol fyddai i'r staff allu cael gafael ar liniaduron, i hwyluso gweithio o bell.

3.6. Roedd natur wledig yn arwain at heriau yn ymwneud â diogelwch y staff. Roedd gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid system bydi a gweithwyr unig, a byddai staff heddlu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gwirio marcwyr cyfeiriad ar gais ac yn gwneud ymweliadau ar y cyd, ond gwnaethpwyd y mwyafrif o ymweliadau gan aelodau unigol o staff. Nid oedd y system wedi sicrhau bod y gwiriad marciwr yn cael ei gwblhau'n awtomatig pryd bynnag y byddai achos newydd yn cael ei greu. Mynegodd y staff bryder, oherwydd natur wledig yr ardal, y byddai'n anodd iddynt gael gafael ar gefnogaeth yn gyflym.

## 4. Sefydliad dysgu - mae dysgu a gwella'n arwain at ganlyniadau positif

4.1. Roedd cysylltiadau hyfforddi da gyda Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf, yn hybu cyfleoedd ar gyfer dysgu effeithiol ar y cyd. Gan fwyaf, roedd rheolwyr achos yn ystyried bod eu hanghenion datblygu uniongyrchol wedi eu hateb gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, er y byddent yn croesawu mwy o hyfforddiant i sicrhau eu datblygiad yn y dyfodol. I gyflawni hyn, mae angen i dîm rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid bennu eu blaenoriaethau busnes yn y dyfodol yn gyntaf.

4.2. Roedd gwirfoddolwyr ar banelau gorchymyn atgyfeirio'n deall eu rolau'n dda. Roeddent yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd ar gael iddynt. Byddai rhagor o waith i'w cefnogi i ymgysylltu'n dda gyda phlant a phobl ifanc yn ddefnyddiol. Roedd cyfarfodydd panel gorchmynion atgyfeirio'n cael eu cynnal ar Ddydd Mawrth bob amser yn swyddfa'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac weithiau mewn oriau gwaith oedd yn golygu bod rhai rhieni/gofalwyr yn methu mynychu. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o ddefnyddio lleoliadau cymunedol ar gyfer cyfarfodydd panel. Roedd gorchmynion atgyfeirio wedi eu llunio i ail integreiddio plant a phobl ifanc yn ôl i'w cymuned drwy ddefnyddio gwirfoddolwyr cymunedol, a dylai ddigwydd mewn lleoliadau cymunedol.

4.3. Roeddem wrth ein boddau i ganfod bod Grŵp Cyfranogaeth wedi ei weithredu i ddatblygu ffyrdd newydd a diddorol o ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc i helpu i wella gwasanaethau. Rydym yn annog datblygiad y gwaith yma.

4.4. Gwelsom bartneriaeth yr un mor fuddiol i'r ddwy ochr rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a Phrifysgol De Cymru. Archwiliodd y bartneriaeth 15 achos o blant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth oedd dan risg uwch o niwed neu droseddu. Roedd hyn yn caniatáu i'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid bennu elfennau cyffredin a gwersi i hysbysu arferion yn y dyfodol.

4.5. Yn ddiweddar roedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid wedi gofyn i'r ymchwilwyr archwilio sut roedd AssetPlus yn cael ei ddefnyddio, i helpu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i ddeall ei rôl yn well o ran helpu plant a phobl ifanc i newid, ac i helpu i ddeall y cysylltiadau i ostwng troseddu. Roedd y gwaith yma wedi cychwyn ac yn mynd i adrodd i ddechrau yn haf 2017. Roedd gan hyn y potensial i yrru nifer o ddatblygiadau arwyddocaol ar gyfer y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac yn dangos ymroddiad y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i ddysgu.

## Thema 6: Ymyriadau i ostwng aildroseddu

### Yr hyn y disgwyliwn ei weld

Dylai bod ystod eang o ymyriadau o safon yn cael eu darparu'n dda ac fel roedd eu cynllun wedi'i fwriadu. Rydym yn disgwyl gweld bod y rhain wedi'u seilio ar anghenion a aseswyd gyda chynllunio priodol i uchafu'r tebygolrwydd o sicrhau canlyniadau cynaliadwy. Lle mae plant a phobl ifanc yn gweithio gyda mwy nag un asiantaeth, dylid integreiddio'r gwaith partneriaeth.

### Sgôr yr asesiad achosion

O fewn yr asesiad achos, roedd 71% o'r gwaith ar ymyriadau i ostwng aildroseddu wedi'i wneud yn ddigon da ar y cyfan.

### Canfyddiadau Allweddol

1. Roedd yr asesiadau o briodoldeb plant a phobl ifanc ar gyfer ymyriadau penodol wedi eu hystyried yn ddigon da yn y mwyafrif o achosion.
2. Roedd cyfiawnder adferol yn arbennig o dda.
3. Doedd darpariaeth ymyriadau gan reolwyr achos o fewn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid neu rhwng y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac asiantaethau partner ddim bob amser wedi'u huno neu'n gyson gydag anghenion a aseswyd.
4. Ni werthuswyd effeithiolrwydd yr ymyriadau.

### Esboniad o'r canfyddiadau

1. Nid oedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gwybod pa ymyriadau oedd ar gael i blant a phobl ifanc ac, felly, roedd wedi comisiynu rheolwr uwch i bennu'r rhain, cyn ein harolygiad. Gwelsom rai ymyriadau rhagorol, wedi eu darparu naill ai gan staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid neu gan asiantaethau partner. Roedd y rhain yn cynnwys goruchwyliaeth un-i-un; gwaith yn y llys ieuenctid; adferiad; DVD am Gynhadledd Grŵp Teulu; Briff y Rhaglen Ymgysylltu Ieuenctid; Grŵp y Merched; panelau gorchmynion atgyfeirio; y Grŵp Gweithredu Cyfiawnder Adferol a sesiynau Galw i Mewn i Rieni. Roedd y mwyafrif wedi eu darparu gan reolwyr achos y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, nad yw pob un ohonynt wedi derbyn hyfforddiant ar ddarparu. Dewisodd y rheolwyr achos agweddau o ymyriadau i ddarparu ar sail un-i-un gyda phlant a phobl ifanc, i gyfateb â'u hanghenion. Roedd ystod gyfyngedig o raglenni dysgu achrededig, sydd hefyd yn ystod wedi'i dargedu'n dda, yr oedd y staff yn cefnogi'r plant a phobl ifanc i'w gwneud. Mewn lleiafswm o achosion, nid oedd gwaith y plant a'r bobl ifanc wedi'i achredu.

**Sylw gan blentyn neu berson ifanc**

"*Am fy mod wedi rhoi'r cartref plant ar dân, roedd yn rhaid i mi weithio gyda'r Frigâd Dân, roedd yn rhaid i mi siarad â nhw a gwylio fideos, roedd o gymorth i mi i ddeall y risg o danau.*"

2. Weithiau mae llys yn gallu rhoi Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid gyda Goruchwylio ac Arolygu Dwys pan fydd yn ymdrin gyda throsedd sy'n gosbadwy gyda charchar ond y mae eisiau defnyddio opsiwn gwahanol i garchar. Dylai'r Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid gyda Goruchwylio ac Arolygu Dwys gynnwys gofyniad gweithredu adferiad estynedig y gallai'r llys bennu nifer y diwrnodau yn y gorchymyn ar ei gyfer, gyda gofyniad goruchwylio, gofyniad am gyrffyw a, lle bo'n briodol, ofyniad monitro electronig. Gall gynnwys ystod o weithgareddau yn cynnwys gweithgareddau adferol, adfer costau troseddau ac ail

integreiddio plant a phobl ifanc yn ôl i'r gymuned. Fel arfer mae gorchmynion o'r fath yn cael eu darparu ar y cyd gyda swyddogion heddlu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid. Roedd tri o'r plant a'r bobl ifanc yr oeddem wedi'u cyfweld naill ai ar hyn o bryd, neu yn y gorffennol, wedi bod yn agored i oruchwylio ac arolygu dwys. Nid oedd unrhyw un o'r plant a'r bobl ifanc yma'n ymddangos eu bod yn ymwybodol o rôl yr heddlu yn elfen arolygiaeth eu Goruchwylio ac Arolygu Dwys, ac nid oedd unrhyw un wedi sôn am gyfarfodydd rheolaidd gyda naill ai swyddogion heddlu'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, swyddogion heddlu Rheoli Integredig Troseddwyr, neu dimau'r gymdogaeth.

**Sylw gan blentyn neu berson ifanc**

"*Nid yw'r Goruchwylio ac Arolygu Dwys yn ymwneud â'r heddlu mewn unrhyw ffordd, dim ond tîm y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yr wy'n ei weld, ac rwy'n gorfod cadw apwyntiadau'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid*."

3. Roedd staff yn talu sylw da i ddatblygu 'sgiliau meddal' plant a phobl ifanc ond nid oedd hyn wedi cael ei fesur yn dda. Nid oedd unrhyw fonitro systematig o'r cynnydd a wnaed gan blant a phobl ifanc pan oeddent mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth (ETE). Weithiau roedd y cofnodion am hyn yn gyfyngedig. Nid oedd mecanwaith chwaith i ddadansoddi effaith gweithgareddau ETE penodol ar gyfraddau aildroseddu.

4. Cafodd y gweithgareddau i helpu plant a phobl ifanc i ddatblygu sgiliau ysgrifennu creadigol a darparu darnau drama pwerus wedi sicrhau canlyniadau therapiwtig gwerthfawr. Rhoddodd staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid sylw da i ddatblygu sgiliau meddal yn cynnwys hyder, hunan-barch a'r gallu i ffurfio perthnasau gydag eraill. Ond, nid oedd unrhyw systemau effeithiol ar waith i asesu cynnydd wrth ddatblygu'r rhain.

5. Roedd asesiadau o addasrwydd plant a phobl ifanc ar gyfer ymyriadau penodol wedi cael eu hystyried yn ddigon da mewn ychydig dros hanner yr achosion ac roedd y cynllunio i ostwng aildroseddu'n ddigonol mewn tri chwarter o achosion. Roedd bylchau yn yr adolygiadau ac yn narpariaeth yr ymyriadau acnid oedd cysylltiad clir rhwng cynllunio a darpariaeth yr ymyriadau.

6. Mewn sesiynau, roedd y plant a phobl ifanc yn ymgysylltu'n dda gyda staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid ac yn ymateb yn dda i'r ymddiriedaeth a adeiladwyd gan y staff.

7. Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd bod ymyriadau'n cael eu monitro i sicrhau ansawdd. Doedd hi ddim yn glir sut yr oedd y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth nag effeithiolrwydd yr ymyriadau. Ond, pan fuom yn siarad â phlant a phobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr, roeddent yn glir iawn ynglŷn â gwerth gwaith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

**Sylw gan riant/gofalwr**

Roedd un fam wedi cael anawsterau tymor hir wrth fagu ei mab ac wedi bod i'r sesiwn Galw Draw i Rieni i dderbyn cefnogaeth am y bum mlynedd diwethaf. Disgrifiodd ei phenderfyniad i fynd fel hyn "*dyma'r peth gorau a wnes i erioed*" a dywedodd bod staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid yn "*briodol ac yn broffesiynol ac yn gwneud llawer mwy na'r hyn sy'n ofynnol yn eu swyddi. Gallwch godi'r ffôn unrhyw bryd y bydd problem gennych ac mae dod i'r grŵp yma wedi newid fy mywyd yn gyfan gwbl*."

# Atodiad 1 - Cefndir yr arolygiad

## Trefniadau arolygu

Mae'r rhaglen Arolygiad Llawn ar y Cyd (FJI) yn arolygu gwaith troseddu ieuenctid, yn bennaf mewn achosion carcharol a chymunedol statudol, mewn nifer fechan o ardaloedd awdurdod lleol bob blwyddyn.

Y mwyafrif o'r Timau Troseddau Ieuenctid a ddetholwyd ar gyfer yr arolygiadau hyn yw'r rheiny y mae eu perfformiad - ar sail cyfraddau aildroseddu, Dangosyddion Canlyniad Cyfiawnder Ieuenctid Cenedlaethol a'i gefnogi gan wybodaeth arall, megis arolygiadau diweddar - yn achos pryder sylweddol. Yn gyfnodol, rydym hefyd yn cynnwys ardaloedd sy'n perfformio'n dda i sefydlu meincnod o arferion da.

Y gyfradd aildroseddu a gyhoeddwyd[6] i Gwm Taf oedd 43.4% (gyda nifer cyfartalog o droseddau blaenorol i bob troseddwr o 1.40) a 37.9% ar gyfer Cymru a Lloegr gyfan (nifer gyfartalog o 1.25 o droseddau blaenorol).

Prif bwrpas y system cyfiawnder ieuenctid yw gostwng troseddu. Dyma brif thema'r arolygiad. Y themâu craidd eraill yw diogelu'r cyhoedd, diogelu'r plentyn neu berson ifanc, sicrhau bod y ddedfryd yn cael ei chwblhau a llywodraethu a phartneriaethau.

## Meini prawf

Mae copi o'r meini prawf arolygu ar gael ar wefan Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi:

http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-inspections/youth-inspection-programmes/inspecting-youth-offending-work/full-joint-inspection/

## Methodoleg

Hysbysir y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid oddeutu 11 diwrnod gwaith cyn cynnal yr arolygiad.

Gwnaed y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad yma yn yr wythnosau yn cychwyn:

13 Mawrth 2017 a 27 Mawrth 2017.

Yn wythnos gyntaf y gwaith maes roeddem yn edrych ar sampl gynrychiadol o 35 o achosion unigol oedd hyd at 12 mis oed, rhai yn gyfredol ac eraill wedi eu terfynu. Roedd y sampl yn cynnwys nifer o'r rheiny sydd dan risg uchel o niweidio eraill, sy'n arbennig o agored i niwed, sy'n ferched ifanc neu sy'n blant a phobl ifanc du ac o ethnigrwydd lleiafrifol. Cafodd achosion eu hasesu gan dîm o staff arolygu. Roeddent yn arolygu'r rhain lle bynnag y gallent gyda rheolwyr achos, a gafodd eu gwahodd i drafod eu gwaith yn fanwl, i esbonio eu meddylfryd ac i bennu tystiolaeth gefnogol yn y cofnod.

Rydym hefyd wedi derbyn copïau o ddogfennau lleol perthnasol.

Yn ystod yr wythnos rhwng y ddau, casglwyd y data o'r arolygiadau achos a datblygodd darlun am ansawdd gwaith y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid.

Yr ail wythnos o faes gwaith yw elfen gyfunol yr arolygiad. Cafodd Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi gwmni cydweithwyr sy'n arolygwyr o'r heddlu, iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Aethom ati i archwilio'r llinellau ymholi a ddaeth i'r amlwg o'r arolygon achos. Cafodd elfennau arweiniad, rheolaeth a phartneriaeth yr arolygiad eu hasesu, gyda ffocws arbennig ar ostwng troseddu.

Aethom ati hefyd i gasglu barn pobl eraill, yn cynnwys rheolwyr strategol, staff a defnyddwyr y gwasanaeth, plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a dioddefwyr, a gwylio'r gwaith sy'n digwydd.

---

[6]Cafodd y gyfradd aildroseddu a oedd ar gael yn ystod y gwaith maes ei chyhoeddi ym mis Ionawr 2017, ac roedd wedi'i seilio ar gyfraddau aildroseddu deuol ar ôl 12 mis ar gyfer carfanEbrill 2014-Mawrth 2015. Ffynhonnell: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Ar ddiwedd yr ail wythnos o waith maes, cyflwynwyd ein canfyddiadau i reolwyr strategol lleol, Tîm Rheoli'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, staff y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid a phartïon eraill sydd â diddordeb.

### Y Dull Sgorio

Mae manylion am y ffordd y gwneir beirniadaethau ein harolygiadau ar ein gwefan.

http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-inspections/youth-inspection-programmes/inspecting-youth-offending-work/full-joint-inspection/

### Trefniadau cyhoeddi

Anfonir adroddiad drafft at y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i gael sylw dair wythnos ar ôl yr arolygiad, gyda chyhoeddiad oddeutu chwe wythnos yn ddiweddarach. Hefyd, mae copi'n mynd at y Gweinidogion perthnasol, arolygiaethau eraill, Grŵp Polisi'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Sicrheir copïau i'r wasg a rhoddir copi ar ein gwefan.

Mae adroddiadau Arolygiad Llawn ar y Cyd (FJI) yng Nghymru'n cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae rhagor o fanylion ynglŷn â'r ffordd mae'r arolygiadau yma'n cael eu gweithredu i'w cael ar ein gwefan yn y ddogfen '*Fframwaith i Raglen Arolygiad Llawn ar y Cyd*' ar:

http://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/about-our-inspections/youth-inspection-programmes/inspecting-youth-offending-work/full-joint-inspection/

### Rôl Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi a Chod Ymarfer

Mae gwybodaeth am rôl Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi a'n Cod Ymarfer i'w cael ar ein gwefan:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Mae'r Arolygiaeth yn gorff cyhoeddus. Dylai unrhyw un sydd eisiau rhoi sylw am arolygiad, adroddiad neu unrhyw fater arall o fewn ei gylch gwaith ysgrifennu at:

Prif Arolygydd Prawf Ei Mawrhydi
Llawr 1af, Canolfan Cyfiawnder Sifil Manceinion
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX